WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

8 Chwefror 2006
www.wao.gov.uk

# Gweinyddu Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH) a'r Gronfa Ysgolion Gwell



© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2006

Paratowyd yr adroddiad hwn i’w gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a’m cynorthwyodd i baratoi’r adroddiad hwn yn cynnwys Dawn Brace, Nathan Barnhouse, Paul Dimblebee a Martin Peters.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae'n archwilio ac yn gwirio ac yn ardystio cyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus a noddir gan, neu sy'n gysylltiedig â'r Cynulliad, gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Hefyd, mae ganddo'r hawl statudol i wneud adroddiad ar gynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y cyrff hynny ac i wella'u defnydd o adnoddau wrth gyflawni'u dyletswyddau.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal a hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn archwilio cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau dan Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Fodd bynnag, er mwyn diogelu safle cyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'r adrodd yn ôl yn benodol i'r Cynulliad ar y gwaith llywodraeth leol hwn.

Yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am fwy o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, byddwch cystal ag ysgrifennu at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod; ffôn 029 2026 0260, e-bost: wales@wao.gov.uk, neu ymwelwch â'r wefan http://www.wao.gov.uk

Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 8 Chwefror 2006



# Contents


## Crynodeb 5

Argymhellion 8

1 **Rhan 1: Sefydlwyd Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH) i helpu i godi safonau mewn ysgolion, ond nid oedd rhai agweddau ar ei chynllun a'i gweinyddiaeth yn gydnaws â'r gwaith o gyflawni'r amcan hwnnw** 10

Darparodd GCAH arian i AALlau gymryd camau gweithredu lleol i godi safonau mewn ysgolion o fewn fframwaith strategol eang 10

Nid oedd rhai agweddau ar gynllun a gweinyddiaeth GCAH yn gydnaws â'r gwaith o gyflawni ei hamcanion 12

2 **Rhan 2: Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn goresgyn rhai o ddiffygion GCAH ond mae lle i wella ymhellach** 20

Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell wedi cynhyrchu rhai gwelliannau yn y broses weinyddu 20

Mae heriau hen a newydd i fynd i'r afael â hwy 22

3 **Rhan 3. Mae lle i wella'r gwerthusiad o weithgareddau a gefnogir gan y Gronfa Ysgolion Gwell ar bob lefel** 26

Er i welliannau diweddar gael eu gwneud, mae lle i Lywodraeth y Cynulliad wella ei threfniadau ar gyfer gwerthuso'r Gronfa ymhellach 26

Mae lle i AALlau ac ysgolion wella eu gwerthusiad 28

## Atodiad

Atodiad 1: Methodoleg 31

Atodiad 2: Crynodeb o'r newidiadau i Feysydd Gweithgarwch 34






# Crynodeb

**1** Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn rhoi cymorth grant wedi'i dargedu i Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau)[1] i'w helpu i ddatblygu mentrau newydd a ffyrdd newydd o wella safonau addysgu a chyrhaeddiad mewn ysgolion. Gall AALlau ddefnyddio'r Gronfa i gynorthwyo'r gwaith o weithredu eu Cynlluniau Strategol Addysg. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad) yn darparu'r Gronfa ar y cyd ag arian arall wedi'i dargedu, megis Refeniw Ychwanegol ar gyfer Ysgolion a chymorth ar gyfer Dysgu Blynyddoedd Cynnar.

**2** Cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad y Gronfa Ysgolion Gwell yn 2004/2005 fel olynydd Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH). Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn canolbwyntio'n agosach na GCAH ar flaenoriaethau strategol Llywodraeth y Cynulliad, ac mae gweithgareddau cymwys a meysydd blaenoriaeth yn ogystal â'r trefniadau gweinyddol craidd ar gyfer y cynllun, wedi eu nodi mewn cylchlythyr blynyddol. Ar gyfer 2005/2006, £49.4 miliwn yw'r arian crynswth, gan gynnwys arian cyfatebol gan awdurdodau lleol.

**3** Sefydlwyd GCAH yn wreiddiol fel partneriaeth rhwng y Swyddfa Gymreig (bryd hynny) a'r AALl yng Nghymru. Pennwyd dyraniadau blynyddol ar gyfer AALlau unigol ar sail fformiwla y cytunwyd arni gydag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), a darparodd y cynllun arian ar gyfer y gwariant mwyaf cymwys ar gyfradd o 60 y cant, gydag awdurdodau lleol yn cyfrannu'r gweddill o'u setliadau refeniw heb eu neilltuo[2].

**4** GCAH oedd y ffynhonnell fwyaf o arian Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer hyfforddiant mewn swydd a gweithgareddau datblygu ysgolion eraill, a chanfu ein gwaith cwmpasu cychwynnol fod ei gweithrediad yn gymhleth, i ryw raddau. Aethom ati, felly, i ganfod a ellid gwneud unrhyw welliannau i'r ffordd y câi'r cynllun ei redeg. Yn ystod ein harchwiliad, disodlwyd GCAH gan y Gronfa Ysgolion Gwell. Yn unol â hynny, bu i ni ailganolbwyntio ein gwaith i ystyried hefyd yr hyn a wnaed yn y cyfnod pontio ac i nodi pa welliannau eraill yr oedd eu hangen i weinyddu'r cynllun newydd.

## Sefydlwyd GCAH i helpu i godi safonau mewn ysgolion, ond nid oedd rhai agweddau ar ei chynllun a'i gweinyddiaeth yn gydnaws â'r gwaith o gyflawni'r amcan hwnnw

**5** Roedd GCAH yn ddull pwysig o alluogi AALlau ac ysgolion i wella safonau ysgolion. Ond mae'r rhaglen wedi bod yn rhedeg ers sawl blwyddyn ac, er gwaethaf newidiadau o flwyddyn i flwyddyn mewn rhai ardaloedd, mae wedi parhau i gefnogi'r un amrywiaeth a math o weithgareddau. O ganlyniad, roedd AALlau ac ysgolion wedi dechrau ei hystyried fel ffynhonnell o arian refeniw rheolaidd yn hytrach na fel rhaglen sy'n canolbwyntio'n benodol ar godi safonau.

**6** Amrywiodd nifer y meysydd gweithgarwch o flwyddyn i flwyddyn, gan godi i 19 yn 2000/2001. Yn 2000/2001, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad adolygiad o'r rhaglen, mewn ymgynghoriad â Phwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad, a lleihaodd nifer y meysydd gweithgarwch i ddeg.

---

1 Drwy gydol yr adroddiad, cyfeiriwn at yr awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol am ddarparu addysg mewn ysgolion fel Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau)

2 Ystyr heb ei neilltuo yw na ddyrannwyd yr arian ymlaen llaw at ddiben penodol.

Gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad y newid hwn i ddangos yn gliriach y modd yr oedd y gweithgareddau a ariannwyd gan GCAH yn ymwneud â'i blaenoriaethau ar gyfer addysg, ac er mwyn symleiddio'r broses weinyddu.

7 Bob blwyddyn, ymgynghorodd Llywodraeth y Cynulliad ag AALlau a phartïon perthnasol eraill ar y meysydd gweithgarwch a'r meysydd blaenoriaeth y byddai'r cynllun yn eu cefnogi. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn nodwedd bwysig ar weithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, yn ymarferol, roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio'n aml ar destun drafft y cylchlythyr blynyddol yn bennaf, ac roedd rhai AALlau yn teimlo nad oeddent yn cael eu hysbysu'n ddigonol am y gydberthynas rhwng blaenoriaethau polisi sy'n datblygu a gwariant cymwys yn GCAH.

8 Maecylch cynllunio GCAH yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol, yn dechrau ym mis Ebrill, yn unol â chyllid llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, yn gyffredinol. Nod Llywodraeth y Cynulliad oedd hysbysu AALlau am eu dyraniadau wyth mis cyn y flwyddyn academaidd ysgol, ond yn aml methwyd â chyrraedd y cerrig milltir allweddol yng nghylch GCAH, a oedd yn agored i drosiant staff, salwch staff a blaenoriaethau a oedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Dywedodd hanner yr AALlau wrthym fod llithriant sylweddol yn y cylch wedi achosi anawsterau iddynt wrth sicrhau arian cyfatebol o'u setliadau refeniw ac wrth ymrwymo arian GCAH i'w Cynlluniau Strategol Addysg, ac anawsterau ar gyfer ysgolion wrth gynllunio ar gyfer tymor cyntaf blwyddyn y rhaglen, sef tymor yr Haf.

9 Fel rhan o'r cylch GCAH blynyddol, bu i Lywodraeth y Cynulliad asesu a chymeradwyo cynlluniau gwario'r AALlau cyn dyrannu grantiau yn derfynol. Roedd yr ystod eang o weithgareddau a gwmpaswyd gan y rhaglen yn golygu yr aseswyd cynlluniau gan nifer o swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, yr oedd pob un ohonynt yn gyfrifol am feysydd gwahanol o'r polisi a gefnogwyd gan GCAH, a chan Arolygwyr Dosbarth Estyn. O ganlyniad, cwblhawyd asesiadau'n anghyson weithiau, ac nid oeddent bob amser yn cynnwys dadansoddiad trwyadl o wybodaeth reoli am weithgareddau rhaglen ac effeithiolrwydd tebygol cynigion.

10 Yn unol â'r ymagwedd bartneriaeth a fabwysiadwyd ar gyfer GCAH, rhoddwyd llawer o hyblygrwydd i AALlau symud arian ar draws y rhaglen ar ôl cymeradwyo cynlluniau gwario, er mwyn iddynt allu cyflawni yn erbyn amcanion cyffredinol mewn modd a oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau ac amgylchiadau lleol, ac er mwyn ymdopi â phwysau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd yr hyblygrwydd i symud adnoddau ar draws rhaglen ag iddi gwmpas eang yn ei gwneud yn anos monitro ac asesu effaith yr arian ar y gwaith o gyflawni amcanion penodol.

## Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn goresgyn rhai o ddiffygion GCAH ond mae lle i wella ymhellach

11 Cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad y Gronfa Ysgolion Gwell yn 2004/2005, yn dilyn adolygiad mewnol o GCAH. O ganlyniad, mae'r broses weinyddu wedi dod yn fwy syml, ac yn haws ei deall ac ychydig yn rhatach i'w gweinyddu. Cyflwynwyd newidiadau yn raddol, gan gynnwys nifer o fesurau trosiannol i alluogi AALlau i addasu i'r drefn ariannu newydd. Fodd bynnag, mae nifer o welliannau i'w gweithredu'n llwyr o hyd, ac mae rhai o ddiffygion GCAH yn parhau.

12 Fel rhan o'r mesurau trosiannol, ar gyfer 2004/2005 bu i Lywodraeth y Cynulliad lacio rheolaethau o ran y modd y mae AALlau yn symud adnoddau rhwng rhannau gwahanol o'r cynllun. Ond yn 2005/2006, atgyfnerthodd y rhain yn sylweddol. Er nad yw Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i AALlau gyflawni set benodol o amcanion gyda'u dyraniadau o hyd, ond yn hytrach yn eu galluogi i gynllunio eu gweithgareddau o fewn ystod o baramedrau a bennwyd yn y cylchlythyr blynyddol, mae wedi sicrhau bod y paramedrau'n gliriach. Dylai'r newid hwn helpu Llywodraeth y Cynulliad i fonitro'r defnydd a wneir o gronfeydd



a'u heffaith yn well. Mae llai o arian hefyd wedi arwain at fesurau i gynyddu effeithlonrwydd yn y ffordd y gweinyddir gweithgareddau â chymorth. Er enghraifft, mae rhai ysgolion wedi cronni adnoddau i leihau gorbenion.

13 Cafwyd gwell ymdrech i ymgynghori ag AALlau ar y gwaith o ddatblygu'r Gronfa Ysgolion Gwell. Ymhlith yr ymdrechion hyn roedd cyfres o gyfarfodydd rhanbarthol yn ystod 2004/2005 i drafod materion a oedd yn deillio o'r rhaglen newydd a blaenoriaethau posibl ar gyfer 2005/2006, a chyfarfodydd un i un gydag AALlau unigol yn ystod 2005/2006 i roi adborth uniongyrchol ar eu cynlluniau gwario a thrafod blaenoriaethau posibl ar gyfer 2006/2007. Dywedodd Llywodraeth y Cynulliad wrthym fod y mesurau hyn wedi cael eu croesawu gan AALlau. Mae cyfathrebu gyda chyrff perthnasol eraill, megis Estyn a CLILC, hefyd wedi gwella. Fodd bynnag, mae lle i wella cyfranogiad arweinwyr polisi Llywodraeth y Cynulliad mewn cyfarfodydd ymgynghori ag AALlau, i esbonio'r polisïau y mae newidiadau i feysydd gweithgarwch a blaenoriaeth a ariennir o dan y rhaglen yn seiliedig arnynt.

14 Mae cylch cynllunio y Gronfa Ysgolion Gwell yn parhau i fod yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol, gan ddechrau ym mis Ebrill, a pharhaodd llithriant sylweddol yn erbyn y cylch ar gyfer 2004/2005 a 2005/2006. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi glynu wrth gerrig milltir cynllunio allweddol ar gyfer 2006/2007 a disgwylir iddi allu cadarnhau dyraniadau ym mis Ionawr 2006.

15 Mae lle i wella'r asesiad o gynlluniau gwario AALl o hyd. Fel rhan o'r trefniadau trosiannol ar gyfer y rhaglen newydd, ac er mwyn lliniaru anawsterau a achoswyd gan oedi cyn cyhoeddi'r cylchlythyr blynyddol, caniataodd Llywodraeth y Cynulliad i AALlau gyflwyno cynlluniau gwario ar gyfer 2004/2005 heb naratif ategol. Drwy wneud hynny, derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad y byddai'n asesu cynlluniau gwario ar sail ei dadansoddiad o'r wybodaeth reoli sydd ar gael am weithgareddau rhaglen yn unig. Gwnaeth hyn y dasg o asesu effeithiolrwydd tebygol gweithgareddau arfaethedig yn anos, a bu'n rhaid i swyddogion wneud ymholiadau i AALlau ynglŷn â natur rhai gweithgareddau arfaethedig cyn y gellid cymeradwyo dyraniadau.

16 Adferwyd y gofyniad ar gyfer cynlluniau gwario fel y bwriadwyd ar gyfer 2005/2006. Adolygodd Llywodraeth y Cynulliad ei threfniadau asesu hefyd a chyflwynodd ganllawiau newydd a oedd yn nodi'n gliriach y materion y dylid eu harchwilio gan aseswyr Llywodraeth y Cynulliad ac Estyn. Fodd bynnag, mae'r broses asesu yn brin o safonau o hyd, o ran ansawdd y dystiolaeth sy'n ofynnol i helpu i benderfynu p'un ai fodlonir meini prawf asesu craidd. Byddai safonau o'r fath yn helpu i sicrhau ymagwedd fwy cyson tuag at asesu, yn arbennig wrth benderfynu p'un ai yw cynigion gwerthuso AALl yn ddigonol.

17 Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell hefyd wedi cyflwyno heriau newydd y mae angen mynd i'r afael â hwy. Yn arbennig, cyflwynwyd y cynllun newydd yn 2004/2005 yn erbyn cefndir o ostyngiad sylweddol mewn arian. Er na welwyd gostyngiad tebyg o ran cost gweinyddu'r cynllun ar lefel AALl i gyfateb i'r gostyngiad hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal gwaith i fireinio gofynion cynllunio AALlau.

18 Er mwyn ystyried y gostyngiad mewn arian, diddymwyd nifer o weithgareddau o'r rhaglen. Rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad gyngor i AALlau yn nodi, os oeddent yn awyddus i'r gweithgareddau barhau yn lleol, y byddai angen iddynt dalu'r costau cysylltiedig o'r Setliad Refeniw Llywodraeth Leol, a gododd 3.4 y cant yn 2004/2005, er na throsglwyddwyd arian yn uniongyrchol o'r cynllun i'r Grant Cynnal Refeniw. Fel y bu hi, tynnodd AALlau eu cymorth yn ôl o nifer o weithgareddau, yn hytrach na darparu arian amgen.

### Mae lle i wella'r gwaith o werthuso gweithgareddau a gefnogir gan y Gronfa Ysgolion Gwell ar bob lefel o hyd, gan gynnwys AALlau ac ysgolion

**19** Er mai cyfran gymharol fach o gyfanswm y gwariant ar addysg yw'r Gronfa Ysgolion Gwell, mae er hynny, yn dal i fod yn sylweddol. Mae gwerthuso'r Gronfa (a chyn hynny, GCAH) a'r gweithgareddau a gefnogir gan y Gronfa yn effeithiol yn bwysig felly, er mwyn rhoi tawelwch meddwl i Lywodraeth y Cynulliad bod gweithgareddau a ariennir yn cael yr effaith fwriadedig, ac i lywio cynllun y rhaglen yn y dyfodol. Dylai hefyd helpu AALlau i sicrhau bod arfer da wedi'i gefnogi gan y Gronfa Ysgolion Gwell yn cael ei ymgorffori wedi hynny yn y ddarpariaeth addysg brif ffrwd. Mae gwaith sianelu adnoddau Llywodraeth y Cynulliad drwy gyrff llywodraeth leol sy'n atebol yn ddemocrataidd yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhan o'r gadwyn ddarparu – Llywodraeth y Cynulliad, AALlau ac ysgolion – chwarae rôl wrth fonitro a gwerthuso'r cynllun a'i effaith.

**20** Er i rai gwelliannau diweddar gael eu gweithredu, mae lle i Lywodraeth y Cynulliad wella ei threfniadau gwerthuso o hyd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn casglu data ar gynnyrch a chanlyniadau ac mae wedi gwerthuso'r data hwn i raddau, er mai dim ond tystiolaeth gyfyngedig o effeithiolrwydd gweithgareddau a gefnogir gan y Gronfa. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi comisiynu adroddiadau gwerthuso, er enghraifft gan Estyn, sydd wedi darparu rhagor o dystiolaeth o effeithiolrwydd rhai gweithgareddau. Fodd bynnag, nid yw cwmpas y gwerthusiad wedi bod yn systematig a cheir meysydd, megis Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, lle y cafwyd asesiadau cyfyngedig neu ddim asesiadau o gwbl o ran effeithiolrwydd.

**21** Roedd gwerthusiadau GCAH a gynhaliwyd gan AALlau ac ysgolion o ansawdd amrywiol ac, yn gyffredinol, ni ddarparwyd llawer o dystiolaeth o effeithiolrwydd gweithgareddau a ariennir o ran codi safonau. Fodd bynnag, nodwyd rhai enghreifftiau o arfer da.

**22** Yn sgîl cyflwyno'r Gronfa Ysgolion Gwell, daeth y gofyniad i Lywodraeth y Cynulliad werthuso'r holl feysydd blaenoriaeth o fewn cyfnod o dair blynedd, a nododd cylchlythyr 2005/2006 y meysydd blaenoriaeth hynny y mae angen iddynt gael eu gwerthuso cyn 2006/2007. Adroddiad a gomisiynir gan Estyn yw'r safon ofynnol ar gyfer gwerthuso maes. Mae hefyd yn ofynnol i AALlau ddarparu trosolwg o'r gwerthusiad a gynhaliwyd yn lleol ac esboniad o'r modd yr ystyriwyd casgliadau gwerthusiadau mewn cynlluniau gwario blynyddol. Fodd bynnag, nid yw'r cylchlythyr blynyddol yn rhoi cyngor ymarferol i AALlau ar y modd y dylid cynnal gwerthusiadau o weithgareddau a gefnogir gan y Gronfa Ysgolion Gwell.

## Argymhellion

**i** Daeth gostyngiad yn yr arian sydd ar gael o dan y cynllun a gostyngiad llai yn gyfatebol o ran ymdrech weinyddol AALl yn sgîl cyflwyno'r Gronfa Ysgolion Gwell. Mae gan feysydd blaenoriaeth unigol o fewn y Gronfa derfyn ariannu tair blynedd erbyn hyn a dylid eu gwerthuso o fewn tair blynedd i'w cyflwyno. Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn, ac o gofio'r anawsterau a brofwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth lynu wrth gylch cynllunio blynyddol, ac wrth asesu cynlluniau gwario AALl a gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau a ariennir, **dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried p'un ai fyddai cynllunio, ariannu a rheoli'r rhaglen dros gylch hwy, megis tair blynedd yn golygu gwell defnydd o adnoddau.**



ii Mae ymgynghori rhwng Llywodraeth y Cynulliad, ar y naill law, ac AALlau a chyrff perthnasol eraill yn y sector addysg, megis Estyn, ar y llaw arall, yn ddull pwysig o nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella ac yn fodd i gyflawni gwelliant o'r fath. Er bod cyfathrebu wedi gwella yn sgîl cyflwyno'r Gronfa Ysgolion Gwell, mae lle i wella ymhellach, yn fwyaf amlwg rhwng y rheini yn Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am faterion polisi a swyddogion AALl sy'n cynnal y rhaglen yn lleol. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad lunio a chyhoeddi rhaglen ymgynghori flynyddol ac amserlen i helpu i sicrhau yr ymgynghorir â'r holl bartïon perthnasol ar yr adeg briodol. Yn ogystal â phennu dyddiadau er mwyn i swyddogion tîm y Gronfa Ysgolion Gwell gwrdd â swyddogion AALl, dylai'r rhaglen nodi cyfnodau awgrymedig er mwyn i arweinwyr polisi AALl gysylltu â rheolwyr Cronfa Ysgolion Gwell yr AALl, er mwyn gwella'r cyfathrebu ynghylch cwblhau'r cylchlythyr. Dylai'r rhaglen hefyd egluro y disgwylir i arweinwyr perthnasol Llywodraeth y Cynulliad gymryd rhan mewn cyfarfodydd ymgynghori ar y Gronfa Ysgolion Gwell i esbonio meddylfryd y polisïau y mae newidiadau i'r rhaglen yn seiliedig arnynt i reolwyr Cronfa Ysgolion Gwell yr AALl.**

iii Mae tîm Cronfa Ysgolion Gwell Llywodraeth y Cynulliad yn fach ac, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi dibynnu'n drwm ar un aelod allweddol o staff, sydd wedi golygu bod cylch cynllunio blynyddol y Gronfa wedi tueddu i lithro o ganlyniad i drosiant staff, salwch staff a blaenoriaethau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad gymryd camau, megis sefydlu trefniadau cyflenwi digonol ymlaen llaw, i sicrhau ei bod mewn sefyllfa well i ymdopi â'r digwyddiadau sy'n achosi llithriant.**

iv Mae asesiad Llywodraeth y Cynulliad o gynlluniau gwario'r AALl wedi bod yn anghyson ar draws y rhaglen. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad lunio safonau, o ran ansawdd y dystiolaeth sydd ei hangen i helpu i benderfynu p'un ai fodlonwyd meini prawf craidd ar gyfer asesu cynlluniau gwario AALl. Yn arbennig, dylai'r safonau hyn nodi'r dystiolaeth ofynnol i nodi effeithiolrwydd tebygol gweithgareddau a ariennir.**

v Mae gwerthuso effaith gweithgareddau a ariennir ar safonau addysgu ac addysg yn bwysig i sicrhau y defnyddir adnoddau'r Gronfa Ysgolion Gwell yn effeithiol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno rhaglen dreigl o werthusiadau, ac mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i AALlau ac ysgolion gynnal eu gwerthusiadau eu hunain o weithgareddau a ariennir. Er mwyn sicrhau y caiff pob agwedd ar y rhaglen ei gwerthuso i safon briodol, **dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu a chyhoeddi canllawiau ymarferol ar gyfer AALlau, ysgolion a gwerthuswyr eraill ar y modd y mae'n disgwyl cyflawni'r gwaith gwerthuso. Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at y mesurau gwell, gan gynnwys dangosyddion dirprwyol, y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio eu datblygu er mwyn darparu tystiolaeth well o effaith gweithgareddau a ariennir ar safonau addysgu ac addysg.**



# Rhan 1: Sefydlwyd Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH) i helpu i godi safonau mewn ysgolion, ond nid oedd rhai agweddau ar ei chynllun a'i gweinyddiaeth yn gydnaws â'r gwaith o gyflawni'r amcan hwnnw

## Darparodd GCAH arian i AALlau gymryd camau gweithredu lleol i godi safonau mewn ysgolion o fewn fframwaith strategol eang

**1.1** Sefydlodd y Swyddfa Gymreig (bryd hynny) y rhaglen GCAH yn 1991/1992. O 2001 ymlaen, cefnogodd y rhaglen amcan Llywodraeth y Cynulliad i *"…wella safonau addysgu a chyrhaeddiad ym mhob un o'n hysgolion, gan werthfawrogi a chefnogi'r proffesiwn addysgu i gyflawni hyn."*[3] Gwariwyd mwyafrif arian GCAH ar hyfforddiant mewn swydd, er y gellid defnyddio arian i brynu, er enghraifft, offer technoleg gwybodaeth, lle yr oedd hyn yn berthnasol i amcanion y cynllun.

**1.2** Bob blwyddyn, mae'r cynllun yn darparu arian ar gyfer ystod o feysydd gweithgarwch penodol, megis Llythrennedd a Rhifedd, Arweinyddiaeth Ysgolion a Dysgu Blynyddoedd Cynnar. Adlewyrchodd y meysydd hyn nodau polisi Llywodraeth y Cynulliad a'i hasesiad o'r meysydd lle mae angen gwella safonau. Amrywiodd nifer y meysydd gweithgarwch o flwyddyn i flwyddyn, gan godi i 19 yn 2000/2001. Yn 2000/2001, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, adolygiad o'r rhaglen a lleihaodd nifer y meysydd gweithgarwch i 10, er mwyn dangos yn gliriach y gydberthynas rhwng y gweithgareddau a gefnogir gan GCAH a blaenoriaethau strategol y Cynulliad ar gyfer addysg, ac er mwyn symleiddio'r broses weinyddu. Roedd y rhan fwyaf o'r meysydd gweithgarwch yn cynnwys is-feysydd blaenoriaeth, yr amrywiodd eu nifer dros amser hefyd (Atodiad 2).

**1.3** Nododd Llywodraeth y Cynulliad mewn cylchlythyr GCAH blynyddol ddiben cyffredinol y cynllun, diffiniadau meysydd gweithgarwch sy'n gymwys i gael arian a'r meysydd blaenoriaeth oddi mewn iddynt, a'r trefniadau gweinyddol cysylltiedig. Roedd y Cylchlythyr yn cynnwys manylion yr arian a oedd ar gael o dan bob maes gweithgarwch a sut y dylai AALlau wneud cais amdano.

**1.4** Darparodd Llywodraeth y Cynulliad grant o 60 y cant o gost y gweithgareddau mwyaf cymwys, a bu i AALlau gyfrannu'r gweddill o'i setliadau refeniw heb eu neilltuo. Dosbarthwyd arian ar sail fformiwla y cytunwyd arni gydag awdurdodau lleol a CLILC, er i rywfaint o arian gael ei ddyrannu i AALlau ar sail ceisiadau cystadleuol. Darparodd Llywodraeth y Cynulliad yr arian ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf pedwar rhandaliad, gan dalu'r rhandaliad olaf ar ôl derbyn tystysgrif gwneud cais am grant gan archwilwyr yr awdurdod lleol a oedd yn dangos p'un ai ddarparwyd yr arian cyfatebol gan yr AALlau a ph'un ai fodlonwyd y gofynion a nodwyd yng nghylchlythyr GCAH. Mae cyfanswm yr arian a ddyrannwyd i GCAH a'i holynydd, y Gronfa Ysgolion Gwell, wedi'u nodi yn Ffigur 1.


## Roedd GCAH yn elfen sylweddol o gymorth grant Llywodraeth y Cynulliad a'i nod oedd dylanwadu ar welliannau mewn ysgolion

**1.5** Er bod arian GCAH yn cyfateb i lai na dau y cant o gyfanswm cyllideb ysgolion yng Nghymru, roedd y rhaglen yn ffynhonnell sylweddol o arian ar gyfer hyfforddi a datblygu athrawon a chynorthwywyr

3 Y Wlad sy'n Dysgu, Awst 2001



Ffigur 1: Dyraniadau GCAH o 1999/2000 i 2003/2004 a dyraniadau'r Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer 2004/2005 a 2005/2006




Noder: Mae dyraniadau yn cynnwys arian Llywodraeth y Cynulliad ac AALl

*Ffynhonnell: Cylchlythyrau GCAH*

athrawon, ac ar gyfer dulliau eraill o wella safonau. Dywedodd y rhan fwyaf o'r AALlau a'r ysgolion yn ein harolwg sampl fod GCAH yn ddull pwysig o'u galluogi i wella safonau.

**1.6** Darparodd Llywodraeth y Cynulliad amrywiaeth o grantiau eraill wedi eu targedu ar gyfer AALlau, gan gynnwys Refeniw Ychwanegol i Ysgolion[4] (£35.5 miliwn yn 2003/2004) a Blynyddoedd Cynnar (£16 miliwn yn 2003/2004). Darparodd arian hefyd ar gyfer datblygiad proffesiynol unigol athrawon, drwy Gronfa Datblygiad Proffesiynol Parhaus y Cyngor Addysgu Cyffredinol (£5 miliwn yn 2003/2004). Bwriad yr arian hwn oedd helpu i godi safonau mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, diben Cronfa Datblygiad Proffesiynol Parhaus y Cyngor Addysgu Cyffredinol yw mynd i'r afael ag anghenion proffesiynol unigol athrawon.

## Datblygwyd GCAH fel partneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac AALlau

**1.7** Yn gyffredinol, darparodd GCAH arian wedi'i neilltuo i AALlau wario ar hyfforddiant, cymorth a gweithgareddau datblygu ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu, i'w galluogi i wella canlyniadau addysgol. Bwriad y gofyniad y dylai AALlau ddarparu arian cyfatebol o 40 y cant o gost y rhan fwyaf o'r gweithgareddau a ariennir gan GCAH oedd annog eu hymrwymiad i'r gweithgareddau a gefnogir. Cafodd cyfraniad AALlau ei fonitro drwy ardystio ceisiadau grant AALlau gan archwilwyr a benodwyd gan y Comisiwn Archwilio[5], gan roi tawelwch meddwl i Lywodraeth y Cynulliad fod AALlau wedi darparu eu cyfran o'r arian, sef 40 y cant a'u bod wedi bodloni gofynion eraill a nodwyd cyn gallu hawlio eu rhandaliad terfynol o arian GCAH.

4 Rhoddwyd Refeniw Ychwanegol i Ysgolion at nifer o ddibenion penodol, gan gynnwys gostwng maint dosbarthiadau iau, cymorth ar gyfer ysgolion nad ydynt yn perfformio'n dda, cymorth ar gyfer ysgolion bach a gwledig a gwelliannau ar Gyfnod Allweddol 3.

5 Ar 1 Ebrill 2005, ymgorfforwyd swyddogaethau a staff y Comisiwn Archwilio yng Nghymru o fewn Swyddfa Archwilio Cymru a oedd newydd gael ei chreu.

1.8 Bwriad ymagwedd Llywodraeth y Cynulliad oedd galluogi AALlau i fwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni amcanion cenedlaethol tra'n ystyried amrywiadau mewn anghenion ac amgylchiadau lleol. Gellid defnyddio arian GCAH hefyd, ynghyd â ffynonellau arian eraill, i gefnogi'r broses o weithredu agweddau ar Gynlluniau Strategol Addysg AALlau lle yr oedd hyn yn gyson â nodau ac amcanion GCAH.

1.9 Nododd cylchlythyr blynyddol GCAH y nodau a'r amcanion a oedd yn ategu pob maes gweithgarwch a blaenoriaeth a darparodd ganllawiau ar wariant cymwys. Roedd gan rai meysydd gweithgarwch a blaenoriaeth, megis y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu, dargedau penodol yr oedd disgwyl i AALlau eu cyflawni. Fodd bynnag, yn gyffredinol, caniataodd y rhaglen i AALlau gynllunio eu gweithgareddau o fewn paramedrau eang, a chytunwyd ar dargedau rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau unigol ar sail gwybodaeth a ddarparwyd mewn cynlluniau gwario AALl, a oedd yn cynnwys mesurau perfformiad ar gyfer pob maes gweithgarwch. Ar y cyfan, roedd tua 70 o fesurau o'r fath yn 2003/2004.

## Nid oedd rhai agweddau ar gynllun a gweinyddiaeth GCAH yn gydnaws â'r gwaith o gyflawni ei hamcanion

### Dechreuodd AALlau ystyried GCAH fel ffynhonnell arian rheolaidd yn hytrach na fel grant penodol ar gyfer gweithgareddau i godi safonau

1.10 Ers ei lansio yn 1991, datblygwyd GCAH fel cynllun grant 'portffolio' y gellid ei ddefnyddio i sianelu arian ar gyfer ystod eang o fentrau. Roedd hyn yn fodd i symleiddio'r broses o weinyddu'r cynllun ac i gadw nifer y cynlluniau grant unigol yr oedd yn rhaid i AALlau eu gweinyddu i'r nifer leiaf posibl.

1.11 Roedd AALlau ac ysgolion yn aml yn trin GCAH fel ffynhonnell arian rheolaidd, yn hytrach na grant penodol blynyddol ar gyfer gweithgareddau i godi safonau, a dywedodd yr AALlau a'r ysgolion a arolygwyd gennym iddynt ddod i ddibynnu ar GCAH i ariannu gweithgareddau parhaus. Bu'r rhaglen yn rhedeg am nifer o flynyddoedd ac, er gwaethaf newidiadau o flwyddyn i flwyddyn mewn rhai ardaloedd mae wedi parhau i gefnogi, yn gyffredinol, yr un amrywiaeth a math o weithgareddau. Hyd yn oed pan nodwyd y terfynau amser ar gyfer mentrau, parhaodd arian i gael ei ddarparu y tu hwn i'r terfynau hynny ar gais AALlau. Er enghraifft, roedd y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth wedi ei chynnwys yn GCAH yn 1999 am dair blynedd, ond roedd i'w gweld yn 2004/2005 hefyd.

### Nid yw pob parti perthnasol yn y sector addysg o'r farn iddynt gael eu cynnwys yn ddigonol mewn ymgynghoriad ar GCAH

1.12 Bu i Lywodraeth y Cynulliad ymgynghori â phartïon perthnasol yn y sector addysg i nodi tystiolaeth a'i chasglu i lywio ei blaenoriaethau addysg strategol. Yn ogystal, ymgynghorodd timau polisi o fewn Llywodraeth y Cynulliad â'u cydweithwyr cyfatebol ym maes polisi AALlau mewn amryw o ffyrdd ar y meysydd gweithgarwch a blaenoriaeth y dylid eu cynnwys yn GCAH. Roedd ymgynghori ar GCAH hefyd yn cynnwys trafodaethau gyda grwpiau cynghori sefydlog, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Estyn ac Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC), a chyfarfodydd gyda grwpiau pwnc AALl, megis ar gyfer y Gymraeg. Mewn rhai achosion, ceisiodd Llywodraeth y Cynulliad gyngor ar sail ad hoc hefyd yn ystod y broses o ddatblygu'r cylchlythyr blynyddol.

1.13 Fodd bynnag, ymgynghorwyd yn ffurfiol ar y gwaith o ddatblygu'r rhaglen ar ffurf cyfarfod blynyddol rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac AALlau, y gwahoddwyd Estyn, ACCAC, CLILC ac eraill iddo. Canolbwyntiodd trafodaethau yn y cyfarfod hwn yn bennaf ar destun manwl y Cylchlythyr drafft, a gyhoeddwyd fis ymlaen llaw fel arfer. Dywedodd Estyn ac ACCAC wrthym eu bod o'r farn bod graddau'r ymgynghoriad ar ddatblygiad GCAH bob blwyddyn braidd yn gyfyngedig.



**1.14** Y bobl hynny oedd yn gyfrifol am gynnal GCAH yn eu hawdurdodau eu hunain, yn hytrach na'r arbenigwyr mewn meysydd polisi penodol oedd yn dueddol o gynrychioli Awdurdodau Addysg Lleol yn y cyfarfod ymgynghori blynyddol ffurfiol. Yn yr un modd, roedd arweinwyr polisi Llywodraeth y Cynulliad yn dueddol o beidio â bod yng nghwmni'r tîm GCAH. O ganlyniad, er y byddai'r Cylchlythyr drafft yn adlewyrchu canlyniadau cyswllt rhwng arweinwyr polisi Llywodraeth y Cynulliad a'u swyddogion cyfatebol yn yr AALl, roedd cyfleu newidiadau polisi i swyddogion yr AALlau sy'n gyfrifol am reoli'r rhaglen yn lleol rywfaint yn ddatgymalog. Adlewyrchwyd hyn yn y sylwadau a wnaed gan rai swyddogion AALlau a ddywedodd wrthym y byddai cyfarfodydd ymgynghori wedi bod yn fwy gwerthfawr pe baent wedi eu cynnal cyn cyhoeddi'r Cylchlythyr drafft.


**1.15** Bu i ymgynghoriad ag AALlau wella yn 2002/2003 pan gynhaliodd tîm GEST Llywodraeth y Cynulliad gyfres o gyfarfodydd un i un a grwpiau bach ychwanegol â phob AALl yng Nghymru i drafod datblygu'r rhaglen yn y dyfodol. Ymgysylltodd y tîm yn agos â chynrychiolwyr AALl a CLlLC yn ystod y broses o adolygu fformiwla ddyrannu GCAH yn 2001/2002 a 2002/2003.

## Roedd yn ofynnol i AALlau reoli newidiadau mewn blaenoriaethau o flwyddyn i flwyddyn

**1.16** Mae angen gwneud newidiadau i'r cynllun grant o bryd i'w gilydd i adlewyrchu blaenoriaethau addysgol newidiol. Gan fod Llywodraeth y Cynulliad wedi cyfarwyddo cymorth ar gyfer nifer gynyddol o fentrau drwy GCAH, megis gweithredu ymrwymiadau yn *Y Gorau ar gyfer Addysgu a Dysgu yng Nghymru* (papur gwyrdd, Gorch. 4150, 1999), cynyddodd nifer y meysydd gweithgarwch a daeth gweinyddu'r rhaglen yn fwy cymhleth (Ffigur 2 ac Atodiad 2).


**1.17** Yn 2000/2001, adolygodd Llywodraeth y Cynulliad, mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, strwythur y rhaglen ac yn dilyn hyn gostyngodd nifer y meysydd gweithgarwch o 19 i 10, gyda'r bwriad o gysylltu pob maes gweithgarwch yn glir â blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad. Symleiddiodd y rheolau hefyd y gallai AALlau symud gwariant rhwng

Ffigur 2: Nifer y meysydd gweithgarwch ers 1999




*Ffynhonnell: Cylchlythyron GCAH a'r Gronfa Ysgolion Gwell*

Ffigur 3: Cylch Blynyddol Arfaethedig GCAH




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gylchlythyrau GCAH*

meysydd gweithgarwch oddi tanynt. Fodd bynnag, parhaodd nifer y meysydd blaenoriaeth yn uchel, a chymerodd gryn dipyn o amser i'r gydberthynas rhwng y rhain a'r meysydd gweithgarwch newydd gael eu hymgorffori. Dywedodd yr AALlau y buom ar ymweliad â hwy wrthym fod y newidiadau hyn yn ei gwneud yn anodd iddynt gynllunio gyda sicrwydd, yn arbennig gan fod angen iddynt gynllunio ar sail cylchlythyr y flwyddyn flaenorol yn aml, hyd nes y bydd y cylchlythyr ar gyfer y flwyddyn bresennol ar gael.

## Cafwyd oedi yn y cylch cynllunio GCAH yn aml

**1.18** Bob blwyddyn, nododd Llywodraeth y Cynulliad yn ei chylchlythyr GCAH ddyraniad dangosol ar gyfer pob AALl o dan bob maes gweithgarwch. Mewn ymateb, paratôdd AALlau gynlluniau a'u cyflwyno yn nodi'r hyn yr oeddent yn bwriadu'i wneud gyda'u dyraniadau.

**1.19** Bwriad Llywodraeth y Cynulliad oedd i'r cylch GCAH ddechrau ym mis Mai bob blwyddyn, a hysbyswyd AALlau o'u dyraniadau dangosol ym mis Mehefin. Raedd hyn tua naw mis cyn y flwyddyn ariannol y câi'r dyraniadau eu gwneud ar ei chyfer a 14 o fisoedd cyn y flwyddyn ysgol lle y câi'r rhan fwyaf o'r gwariant ei wneud. Gweithiodd y tîm GCAH gydag arweinwyr polisi i drosi gofynion polisi sy'n datblygu yn flaenoriaethau gweithgarwch a blaenoriaeth cymwys ar gyfer y cylchlythyr GCAH newydd. Byddai paratoi'r cylchlythyr drafft hefyd yn ystyried adroddiadau blynyddol Estyn, a nododd, yn gyffredinol, lle yr oedd angen gwella




mewn ysgolion. Yn dilyn ymgynghoriad ag AALlau, ac ar ôl cynnwys unrhyw newidiadau cytûn, cyhoeddodd y Cynulliad y Cylchlythyr terfynol a gwahoddwyd AALl yn ffurfiol i gyflwyno cynlluniau gwario. Bu i arweinwyr polisi o fewn yr Adran Hyfforddiant ac Addysg wedyn asesu cynllun gwario pob AALl, gyda chyngor gan Estyn. Pan gwblhawyd y broses hon, byddai'r tîm GCAH yn hysbysu AALlau am eu dyraniadau ariannu a gadarnhawyd (Ffigur 3) .

**1.20** Nod Llywodraeth y Cynulliad oedd cyhoeddi'r cylchlythyr GCAH terfynol ym mis Awst pob blwyddyn, a chynlluniau gwario AALlau ym mis Tachwedd, mewn da bryd i Lywodraeth y Cynulliad wneud dyraniadau i AALlau y mis Ionawr canlynol, ynghyd â therfynu'r gyllideb addysg a chadarnhau'r Grant Cynnal Refeniw. Roedd hyn yn fodd i AALlau gael amser i hysbysu ysgolion ynghylch eu dyraniadau dirprwyedig cyn dechrau'r flwyddyn ariannol a tuag wyth mis cyn y flwyddyn academaidd y byddai ysgolion yn defnyddio'r grant ar ei chyfer yn bennaf. Roedd y gwahaniaethau rhwng y blynyddoedd ariannol ac academaidd yn golygu bod angen i ysgolion ddefnyddio rhywfaint o'r grant newydd er mwyn cwblhau (yn ystod tymor yr haf) rhywfaint o'r hyfforddiant a gynlluniwyd o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Fodd bynnag, mae ffactorau megis arholiadau allanol, yn atal gweithgareddau datblygu yn ystod tymor yr haf, ac roedd tueddiad i'r rhan fwyaf o wariant GCAH gael ei ddefnyddio yn ystod dau dymor cyntaf y flwyddyn academaidd.


**1.21** Yn ystod y cyfnod 2001/2002 i 2005/2006, ni wnaeth Llywodraeth y Cynulliad fodloni ei cherrig milltir allweddol yng nghylch GCAH (Ffigur 4). Cafwyd oedi am ddau brif reswm. Yn gyntaf, roedd tîm GCAH yn fach ac yn dibynnu'n drwm ar un aelod allweddol o staff. Felly, roedd yn agored i salwch staff, trosiant staff a blaenoriaethau a oedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Yn ail, roedd angen ymgynghoriad sylweddol ar rai penderfyniadau polisi a oedd yn effeithio ar gylchlythyr GCAH o fewn Adran Hyfforddiant ac Addysg Llywodraeth y Cynulliad, a allai fod yn llafurus.

## Ffigur 4: Cerrig Milltir Cynllunio a Gyflawnwyd gan Lywodraeth y Cynulliad 2001/2002 i 2005/2006




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o lithriadau yn amserlen GCAH*

Ffigur 5: Cymharu cylch GCAH/y Gronfa Ysgolion Gwell a chylch Cynllunio Strategol Addysg AALl




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o gylch GCAH a'r Gronfa Ysgolion Gwell ers 2000/2001*

**1.22** Ym mhob un o'r blynyddoedd hyn, roedd yr amser a oedd ar gael ar gyfer ymgynghori a chynllunio wedi'i gywasgu. Roedd hanner yr AALlau a thraean o'r ysgolion a arolygwyd gennym o'r farn nad oedd ganddynt ddigon o amser i gynllunio'n effeithiol o ganlyniad i oedi o'r fath. Dywedodd hanner yr AALlau hefyd iddynt gael anawsterau wrth ddod o hyd i arian cyfatebol pan gawsant eu hysbysu'n hwyr am eu dyraniadau gan Lywodraeth y Cynulliad. Dywedodd rhai i'r anawsterau hyn waethygu yn ystod blynyddoedd pan gynyddodd eu dyraniadau. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi ei chyllideb drafft, gan gynnwys llinell sylfaen GCAH, ymhell cyn y flwyddyn ariannol newydd, ac mae o'r farn y dylai hyn fod wedi rhybuddio AALlau am unrhyw newidiadau mawr i'r cynllun. Hefyd, yn ystod y flwyddyn lle y gwelwyd y llithriant mwyaf, sef 2004/2005, cyhoeddwyd y Cylchlythyr i AALlau chwe mis cyn y flwyddyn academaidd y mae mwyafrif yr arian yn berthnasol iddi, er mai dim ond mis cyn dechrau'r tymor cyntaf a gwmpaswyd gan y flwyddyn ariannol oedd hyn.

**1.23** Roedd llithriant yn erbyn amserlen gynllunio GCAH hefyd yn golygu bod AALlau wedi cael rhywfaint o anhawster wrth ddarparu data GCAH i lywio Cynlluniau Strategol Addysg (Ffigur 5). Yn y cynlluniau hyn, nododd AALlau sut y byddant yn datblygu ac yn gwella eu hysgolion dros y tair



blynedd academaidd ddilynol. Mae'r cynlluniau'n cwmpasu pob agwedd ar ddatblygu, er ar lefel strategol yn hytrach nag ar lefel weithredol, ac yn cynnwys mesurau penodol i wella safonau. Caiff y cynlluniau eu diweddaru'n flynyddol fel Cynlluniau Strategol Addysg Atodol, ac fe'u cyflwynir i Lywodraeth y Cynulliad eu cymeradwyo ym mis Mawrth neu ym mis Ebrill cyn pob blwyddyn academaidd.

**1.24** Dywedodd Estyn wrthym fod ansicrwydd o ran amseriad y gwaith o gyhoeddi'r Cylchlythyr wedi ei gwneud yn anodd neilltuo amser i'w arolygwyr archwilio cynlluniau gwario GCAH AALlau, gwasanaeth a ddarparodd Estyn i lywio asesiadau Llywodraeth y Cynulliad ei hun. Yn ogystal, er y byddai ganddo ddarlun clir o flaenoriaethau cyffredinol, roedd Estyn o'r farn y byddai wedi cael ei lywio'n well pe bai wedi gweld cynlluniau gwario AALlau ynghynt wrth baratoi ei waith arolygu ei hun.

## Roedd diffyg cysondeb yn asesiadau cynlluniau gwario AALlau

**1.25** Fel rhan o'r cylch GCAH blynyddol, bu i Lywodraeth y Cynulliad asesu a chymeradwyo cynlluniau gwario AALlau cyn dyrannu grant yn derfynol. Roedd yr amrywiaeth o weithgareddau a gwmpaswyd gan y rhaglen yn golygu i gynlluniau gael eu hasesu gan hyd at 20 o swyddogion unigol Llywodraeth y Cynulliad – yr oedd gan bob un ohonynt gyfrifoldeb dros feysydd polisi penodol wedi'u cefnogi gan y cynllun – a chan arolygwyr dosbarth Estyn. Roedd heriau sylweddol wrth sicrhau bod asesiadau'n cael eu cwblhau yn gyson, a rhoddodd ystyriaeth lawn i'r dadansoddiad o wybodaeth reoli am weithgareddau ac effeithiolrwydd tebygol cynigion gwario.

**1.26** Wrth asesu cynlluniau gwario, nod Llywodraeth y Cynulliad oedd codi holl gynlluniau AALlau i lefel dderbyniol, yn hytrach na gwrthod ceisiadau gwan ac atal arian gan ysgolion. Yn ystod y broses asesu, roedd disgwyl i arweinwyr polisi godi materion a oedd yn peri pryder gyda'r AALlau a, lle y bo'n briodol, ceisio eglurhad, neu addasiad i'r cynlluniau. Yn ystod rhai blynyddoedd, lle na ellid datrys materion yn amserol, rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad gymeradwyaethau amodol a gofynnodd i AALlau ddarparu gwybodaeth a gwelliannau i gynlluniau cyn talu unrhyw grant. O gofio bod arian GCAH wedi cael ei ddyrannu i AALlau ar sail fformiwla, a'r gydberthynas bartner rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac AALlau, roedd yr ymagwedd hon yn rhesymol, ond roedd yn brin o'r canlynol:

- **a** safonau, o ran ansawdd y dystiolaeth a oedd yn ofynnol i helpu i benderfynu pa un a fodlonwyd meini prawf asesu a sicrhau ymagwedd gyson ar draws meysydd gweithgarwch;
- **b** dadansoddiad systematig o ddata ar berfformiad yn y gorffennol a thargedau yn y dyfodol. Er i fesurau perfformiad gael eu hymgorffori o fewn cynlluniau gwario GCAH yn dilyn adolygiad archwiliad mewnol Llywodraeth y Cynulliad o GCAH yn 1999, arweiniodd amrywiadau mewn meysydd gweithgarwch a blaenoriaeth o flwyddyn i flwyddyn at anhawster wrth ddadansoddi tueddiadau;
- **c** eglurder o ran rôl Estyn yn y gwaith o asesu cynlluniau gwario, i sicrhau bod ei gyngor yn hysbysu arweinwyr polisi ynghylch effeithiolrwydd tebygol cynigion.

**1.27** Cyn i Lywodraeth y Cynulliad asesu cynlluniau gwario AALlau, fe'u harchwiliwyd gan arolygwyr dosbarth Estyn, a fyddai'n defnyddio eu gwybodaeth broffesiynol am AALl, a'i berfformiad yn gyffredinol. Byddai Arolygwyr yn ystyried, ymysg pethau eraill, p'un ai fyddai'r AALl yn gallu cyflawni ei gynigion, p'un ai fyddai'r cynigion yn debygol o wella safonau yn unol ag amcanion GCAH, p'un ai roddwyd ystyriaeth ddigonol i ganfyddiadau Estyn a ph'un ai gynigiwyd gweithdrefnau gwerthuso cadarn.

**1.28** Yna, bu i dimau polisi o Adran Hyfforddiant ac Addysg Llywodraeth y Cynulliad asesu cynlluniau gwario AALlau fesul maes gweithgarwch. Bu iddynt ystyried pa un a oedd y cynigion yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yng nghylchlythyr GCAH, yn arbennig pa un a fyddai gwariant arfaethedig yn cefnogi gweithgareddau cymwys. Byddai'r timau polisi hefyd yn ystyried p' un ai fyddai targedau ar gyfer gweithgareddau – targedau canlyniadau fel arfer, megis nifer yr athrawon a hyfforddwyd, ond dangosyddion cyrhaeddiad disgyblion weithiau – yn rhesymol, fel arfer drwy gymharu'r targedau ag alldro rhagweledig blynyddoedd blaenorol.

**1.29** Bu i ni gyfweld ag arweinwyr polisi ar gyfer chwe maes gweithgarwch GCAH a chanfuwyd bod pob un ohonynt yn dadansoddi ar lefel uchel y wybodaeth reoli a oedd yn olrhain hynt gweithgareddau, ond ni wnaethant fabwysiadu ymagwedd gyson, ac, ym mhob achos, gallai eu dadansoddiad fod wedi bod yn fwy cadarn a chynhwysfawr. Er enghraifft, llwyddodd arweinwyr polisi i bwyntio at welliannau mewn rhai dangosyddion lefel uchel allweddol, megis canlyniadau TGAU, ond ni wnaethant geisio canfod p'un ai oedd gweithgareddau a ariannwyd gan GCAH wedi cyfrannu at y gwelliannau mewn canlyniadau ac i ba raddau.

**1.30** Wrth asesu cynlluniau, byddai arweinwyr polisi yn defnyddio arolygon ac adroddiadau thematig Estyn lle yr oedd y rhain yn berthnasol i'w meysydd gweithgarwch. Byddent hefyd yn edrych am dystiolaeth o effeithiolrwydd y gweithgareddau arfaethedig yn naratif cynlluniau gwario AALlau. Roedd yn ofynnol i AALlau ddarparu gwybodaeth am eu gwerthusiadau lleol eu hunain yn eu cynlluniau gwario, ond nid oedd yn ofynnol iddynt ddarparu copïau o adroddiadau gwerthuso lleol. Er y rhoddwyd pedair i wyth wythnos i arweinwyr polisi asesu cynlluniau gwario fel arfer, dywedodd nifer ohonynt wrthym fod pwysau eraill yn golygu mai prin y cawsant gyfle i edrych ar gefndir yr AALlau neu ar natur gyraeddadwy eu cynigion.

**1.31** Defnyddiodd arweinwyr polisi rhagasesiadau cynlluniau gwario AALlau hefyd a ddarparwyd gan Estyn, ond mewn ffyrdd gwahanol. Cyfeiriodd rhai atynt yn gyson, gan weithredu ar unrhyw arwydd o wendid a roddwyd gan ragasesiad Estyn a hynny ar y cyd â'r AALl dan sylw, tra y byddai eraill ond yn cyfeirio at ragasesiad Estyn pan oedd eu hasesiad eu hunain yn codi pryderon. Mewn achosion eraill, cafwyd rhywfaint o orgyffwrdd o ran yr asesiadau a gynhaliwyd gan arweinwyr polisi ac arolygwyr Estyn, gyda'r ddwy set o asesiadau yn rhoi sylwadau ar yr un materion.

**1.32** Amlygwyd yr ymagweddau gwahanol tuag at asesu cynlluniau gwario AALl mewn adroddiad mewnol gan Lywodraeth y Cynulliad a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1998. Argymhellodd yr adroddiad y dylai tîm GCAH lunio methodoleg ar gyfer asesu cynlluniau gwario, gan gynnwys gofyniad i isadrannau polisi arweiniol lunio meini prawf dethol penodol a oedd yn briodol i'w meysydd cyfrifoldeb, y dylent eu defnyddio wrth asesu'r ceisiadau. Gweithredwyd yr argymhelliad hwn drwy Gylchlythyr 2000-1 (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 1999) a chyhoeddwyd canllawiau wedi eu diweddaru yn 2002 ar ôl ailstrwythuro'r rhaglen. Fodd bynnag, nid oedd y canllawiau yn cynnwys safonau ar ansawdd y dystiolaeth a oedd yn ofynnol i helpu i benderfynu p' un ai fodlonwyd meini prawf asesu.

## Symudodd AALlau ac ysgolion arian o fewn y cynllun i adlewyrchu blaenoriaethau lleol yn well, ond roedd hysbysiadau hwyr a cheisiadau ôl-weithredol am gymeradwyaeth yn ei gwneud yn anos i Lywodraeth y Cynulliad adolygu'r modd yr oedd arian yn cael ei wario

**1.33** Yn anochel, nid oedd asesiadau lleol o flaenoriaethau bob amser yn cyfateb i asesiadau cyffelyb Llywodraeth y Cynulliad, fel y nodir yn y cylchlythyr GCAH blynyddol ac fel yr adlewyrchir yn nyraniadau AALlau ac ysgolion. Yn unol â



hynny, o dan yr ymagwedd bartneriaeth a fabwysiadwyd ar gyfer GCAH, roedd gan AALlau lawer o hyblygrwydd i symud arian rhwng rhannau gwahanol o'r cynllun ar ôl i gynlluniau gwario gael eu cymeradwyo. Roedd hyn yn eu galluogi i ystyried blaenoriaethau lleol, o fewn y fframwaith eang o nodwyd yn y rhaglen, ac ymateb i bwysau yn ystod y flwyddyn.

**1.34** Er i fwyafrif yr AALlau (14 o blith 22) a dwy ran o dair o'r ysgolion a arolygwyd ddweud bod blaenoriaethau GCAH yn alinio'n gyffredinol â'u hasesiadau o anghenion lleol, defnyddiodd AALlau yr hyblygrwydd o fewn y cynllun i symud cyfrannau bach o'u dyraniadau. Yn 2003/2004, pedwar y cant oedd cyfran yr arian a symudwyd, ond weithiau, symudodd rhai awdurdodau gyfrannau sylweddol, hyd at 15 y cant o'u dyraniadau. Ymddengys i ran fwyaf y symudiadau o ran arian ddigwydd tua diwedd y flwyddyn ariannol.

**1.35** Ar gyfer symud arian rhwng rhai meysydd gweithgarwch, roedd yn ofynnol i AALlau gael cymeradwyaeth Llywodraeth y Cynulliad ymlaen llaw. Fodd bynnag, cododd sawl achlysur pan geisiodd AALlau gymeradwyaeth ôl-weithredol, ar ôl i'r symudiad ddigwydd. Ceisiodd tri o blith y 22 o AALlau gymeradwyaeth ôl-weithredol i symud arian yn 2001/2002 a 2002/2003. Roedd hysbysiadau hwyr o gymeradwyaeth i symud arian o fewn GCAH a cheisiadau ôl-weithredol ar gyfer gwneud hynny yn ei gwneud yn anodd i Lywodraeth y Cynulliad ymyrryd i sicrhau na pheryglwyd y gwaith o ddarparu cynlluniau gwario cymeradwy.



# Rhan 2: Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn goresgyn rhai o ddiffygion GEST ond mae lle i wella ymhellach

## Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell wedi cynhyrchu rhai gwelliannau yn y broses weinyddu

### Mae'r broses o weinyddu'r cynllun wedi dod yn symlach ac yn llai costus

**2.1** Yn 2004, yn dilyn adolygiad mewnol, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad y Gronfa Ysgolion Gwell i ddisodli GCAH. Bwriad y Gronfa Ysgolion Gwell oedd canolbwyntio ar arloesi a chefnogi mentrau newydd, yn hytrach na darparu cymorth parhaus ar gyfer darpariaeth addysg sefydledig. Cyflwynwyd y newidiadau sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Ysgolion Gwell yn raddol, gan ddechrau yn ystod blwyddyn drosiannol 2004/2005.

**2.2** Yn ystod y blynyddoedd cyn cyflwyno'r Gronfa Ysgolion Gwell, roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi gwelliannau ar waith o ran rheoli GCAH, gan gynnwys aildrefnu'r rhaglen i ddangos y cyswllt â blaenoriaethau strategol y Cynulliad ac adolygiad o'r fformiwlâu dyrannu i sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu'n fwy effeithiol. Cyflwynodd newidiadau gweinyddol hefyd, megis ffurflenni gwneud cais am grant electronig a chyflwyno cynlluniau gwario AALlau dros yr e-bost. Wrth newid o GCAH i'r Gronfa Ysgolion Gwell yn 2004/2005, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwella'r broses o weinyddu'r cynllun ymhellach, megis ei gwneud yn ofynnol i AALlau gyflwyno gwybodaeth am fesurau perfformiad yn electronig ar fformat taenlen gyffredin. Dangosodd ein harolwg o AALlau fod yr adnoddau a ddefnyddiwyd ganddynt i gynllunio a gweinyddu'r cynllun yn 2004/2005 yn cyfrif am gyfartaledd o 22 o ddiwrnodau staff, gostyngiad o 15 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**2.3** Cyn 2005/2006, nododd y cylchlythyr blynyddol mai arweinwyr polisi yn Adran Hyfforddiant ac Addysg Llywodraeth y Cynulliad oedd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer eu meysydd gweithgarwch. Yn ystod ein hymweliadau maes, dywedodd AALlau wrthym fod hyn wedi tueddu i arwain at ailgyfeirio ymholiadau o amgylch yr Adran, yn hytrach na'u hateb yn uniongyrchol. Ar gyfer 2005/2006, caiff pob ymholiad gan AALlau sy'n ymwneud â chylchlythyr y Gronfa Ysgolion Gwell ei drosglwyddo o amgylch tîm Cronfa Ysgolion Gwell yr Adran, i alluogi rhywun i ymdrin ag ef yn gyflymach ac yn fwy cyson.

**2.4** Ar gyfer 2005/2006, dim ond gweithgareddau sy'n addas i egwyddor y Gronfa Ysgolion Gwell sef cymorth tymor sefydlog – arian am dair blynedd, a dim ond ar gyfer prosiectau sydd â strategaethau gadael clir – sy'n parhau o fewn y cynllun. O ganlyniad, nid yw'n cynnwys gweithgareddau megis y Gronfa Datblygu Cerddoriaeth mwyach, y mae angen arian rheolaidd arni ar gyfer hyfforddiant. Mae newidiadau o'r fath yn unol â Phrotocol Grant y Cynulliad, y cytunwyd arno yn 2004 rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a CLILC. Bwriad y Protocol yw cadw nifer, gwerth a hyd y grantiau a neilltuwyd i'r lleiaf posibl. Mae hefyd yn hyrwyddo sicrwydd ynglŷn â swm ac amseriad yr arian y gall awdurdodau lleol ddisgwyl ei dderbyn drwy grantiau o'r fath ac mae angen strategaethau gadael a nodwyd yn glir.



## Dylai rheolau llymach sy'n rheoli'r gwaith o symud arian rhwng meysydd gweithgarwch helpu Llywodraeth y Cynulliad i fonitro'r defnydd o arian yn well

**2.5** Pan leihaodd Llywodraeth y Cynulliad gyfanswm yr arian a oedd ar gael drwy'r cynllun draean ar gyfer 2004/2005, bu hyn yn fodd i arian gael ei symud rhwng y rhan fwyaf o'r meysydd gweithgarwch. Diddymodd hefyd y gofyniad ffurfiol i AALlau ddirprwyo o leiaf 50 y cant o'u dyraniadau i ysgolion, gan gyflwyno gofyniad yn ei le i gytuno ar lefelau dirprwyo yn lleol. Trefniadau trosiannol ar gyfer 2004/2005 oedd y rhain yn unig, i helpu AALlau i reoli'r cyfnod pontio o ddyraniad uwch i un is, ac addasu i'r trefniadau ariannu newydd ar gyfer y Gronfa Ysgolion Gwell, a weithredwyd yn llawn o 2005/2006 ymlaen. Fodd bynnag, cyfyngodd y trefniadau ar gyfer 2004/2005 ar allu Llywodraeth y Cynulliad i ymyrryd i sicrhau nad oedd symud arian yn peryglu'r gwaith o gyflawni cynlluniau gwario cymeradwy.

**2.6** Yn unol â newidiadau a gyhoeddwyd yn sgîl cyflwyno'r Gronfa Ysgolion Gwell, ar gyfer 2005/2006 ymlaen mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno cyfyngiadau llymach ar y broses o symud arian rhwng meysydd gweithgarwch. Mae AALlau yn cadw llawer o hyblygrwydd i symud arian ar draws y rhaglen, ond rhaid i gynigion, gan gynnwys y rhesymau dros wneud hynny, gael eu nodi yn awr yn eu cynlluniau gwario blynyddol. Yna bydd gan AALlau gyfnod i gytuno ar unrhyw newidiadau gydag ysgolion a hysbysu tîm Cronfa Ysgolion Gwell Llywodraeth y Cynulliad ohonynt. Nododd cylchlythyr 2005/2006 efallai ei bod yn ofynnol i AALlau baratoi cynllun gwario diwygiedig er mwyn eu cymeradwyo cyn trosglwyddo unrhyw arian, os ymddengys y bydd symudiadau arfaethedig yn peryglu'r gwaith o gyflawni cynlluniau cymeradwy yn sylweddol. Pwysleisiodd cylchlythyr 2005/2006 hefyd na fyddai modd symud arian, at unrhyw ddiben, ar ôl 31 Gorffennaf 2005. Dylai'r mesurau hyn helpu Llywodraeth y Cynulliad i fonitro'r defnydd o arian yn well i sicrhau y darperir gweithgareddau ac amcanion cytûn.

## Mai llai o arian wedi arwain ysgolion i ailystyried y ffyrdd y cyflawnir gweithgareddau â chymorth

**2.7** Cafwyd gostyngiad yn yr arian cyffredinol (Ffigur 2) ac ailffocws ar fesurau sy'n cefnogi arloesedd a mentrau newydd yn sgîl y pontio o GCAH i'r Gronfa Ysgolion Gwell. Mae hyn wedi peri i sawl ysgol feddwl am ffyrdd o sicrhau bod cymaint o athrawon â phosibl yn elwa ar yr arian sydd ar gael. Rhoddodd ein grŵp ffocws o athrawon yr enghreifftiau canlynol i ni:

- **a** dylai hyfforddwyr sy'n ymweld ag ysgolion hyfforddi grŵp mwy o athrawon ar yr un pryd, yn hytrach nag unigolion yn mynychu cyrsiau ar wahân;
- **b** dylai athrawon sydd wedi bod ar gyrsiau friffio cydweithwyr ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gweithle;
- **c** dylai ysgolion sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn consortiwm gronni adnoddau a lleihau gorbenion (Ffigur 6).

### Ffigur 6: Cynllunio consortiwm o fewn AALl Caerffili

Mae consortiwm Trecelyn/Cross Keys yn cynnwys Coleg Cross Keys, Ysgol Gyfun Trecelyn a saith ysgol gynradd gyflenwi, oll wedi eu lleoli ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

Ym mis Ebrill 2004, rhybuddiodd AALl Caerffili ynglŷn â thoriadau arian oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys y Gronfa Ysgolion Gwell, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a Phartneriaid Busnes Addysg. Mewn ymateb, ffurfiodd penaethiaid yr ysgolion gonsortiwm a chynhyrchwyd cynllun strategol yn nodi eu blaenoriaethau ar gyfer hyfforddi a gweithgareddau eraill ar gyfer codi safonau dros y 18 mis canlynol.

*parhad...*

Troswyd hyn yn gynllun gweithredol a nododd y mentrau a fyddai'n derbyn cymorth o'u harian cyfunol. Ariennir y gronfa gan ardoll o £150 fesul athro, a gymerir o ddyraniad y Gronfa Ysgolion Gwell pob ysgol yn y consortiwm, gan roi cyfanswm o £17,500.

Yn hytrach na naw ysgol yn gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer cyrsiau hyfforddi, mae un ysgol yn gwneud trefniadau ar eu rhan hwy oll, a thrwy hynny yn lleihau'r baich gweinyddol. Mae prynu hyfforddiant a chymorth arall drwy'r consortiwm hefyd yn golygu bod ysgolion mewn sefyllfa well i gyd-drafod gostyngiadau, ac yn sicrhau y gellir ymdrin â materion sy'n croesi ffiniau ysgolion cynradd/uwchradd, megis y cyfnod pontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd yn fwy cydlynol.

*Ffynhonnell: Pennaeth Ysgol Gynradd Abercarn*

## Mae heriau hen a newydd i fynd i'r afael â hwy

### Mae ymgynghoriad wedi cynyddu ond mae lle i ymgysylltu ymhellach rhwng AALlau ac arweinwyr polisi

**2.8** Mae ymgynghori ag AALlau, Estyn a chyrff proffesiynol yn angenrheidiol i helpu i sicrhau bod y Gronfa Ysgolion Gwell yn cefnogi gweithgareddau mewn ardaloedd lle mae angen gwella. Yn groes i'r un cyfarfod ar gyfer rhanddeiliaid ar y cylchlythyr ar gyfer 2004/2005, roedd y cyfathrebu rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac AALlau wrth baratoi ar gyfer cyhoeddi'r cylchlythyr ar gyfer 2005/2006 yn cynnwys tri chyfarfod rhanbarthol, wedi eu dilyn gan y prif gyfarfod blynyddol a chyfle pellach i roi sylwadau ysgrifenedig. Mae tîm y Gronfa Ysgolion Gwell hefyd wedi cyflwyno trefniadau lle y mae'r tîm wedi ymweld â phob AALl yn ei dro i roi adborth ar gynlluniau gwario a thrafod datblygiad y Gronfa yn y dyfodol. Croesawodd yr AALlau y bu i ni gyfweld â hwy y datblygiad hwn.

**2.9** Mae tîm Cronfa Ysgolion Gwell Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i wahodd Estyn, ACCAC, CLILC a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i gyfarfod ymgynghori blynyddol ac mae wedi trefnu cyfarfodydd i drafod blaenoriaethau a phroses weinyddu'r cynllun gydag Estyn a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Mae hefyd wedi trafod gydag Estyn, ganlyniadau asesiadau arolygwyr dosbarth Estyn o gynigion gan y Gronfa a'r rhaglen werthuso. Mae hyn wedi helpu Estyn i gyfateb rhaglenni gwaith ei arolygwyr dosbarth yn well i'r amser y mae cynlluniau gwario AALl ar gael ar gyfer eu harchwilio.

**2.10** Er bod ymgynghoriadau wedi gwella o ran mwy o gyswllt rhwng Llywodraeth y Cynulliad ac AALlau, dywedodd AALlau wrthym yn ystod ein hymweliadau ac yn ein harolwg eu bod am wybod mwy am y meddylfryd y tu ôl i benderfyniadau polisi. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cytuno y byddai swyddogion AALl sy'n rheoli'r Gronfa Ysgolion Gwell yn eu hawdurdodau yn elwa ar ddealltwriaeth well o ystyriaethau polisi cyffredin sy'n effeithio ar y broses o reoli'r rhaglen, ac mae wedi trafod gyda CLILC y modd y gellid mynd i'r afael â hyn, ond cred fod hyn yn ymwneud, i raddau helaeth, â chyfathrebu mewnol AALl. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn derbyn y byddai mwy o gyfranogiad mewn cyfarfodydd ymgynghori gydag AALlau gan arweinwyr polisi perthnasol Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i wella'r dasg o gyfleu'r meddylfryd sy'n sail i benderfyniadau polisi sy'n arwain at newidiadau i weithgareddau a blaenoriaethau a ariennir.

### Parhaodd llithriant yn erbyn y cylch cynllunio yn ystod dwy flynedd gyntaf y Gronfa Ysgolion Gwell

**2.11** Mae'r cylch cynllunio ar gyfer y Gronfa Ysgolion Gwell yr un fath â'r un ar gyfer GCAH, a bu llithriannau sylweddol yn erbyn yr amserlen ar gyfer 2004/2005 a 2005/2006 (Ffigur 5). Bu i'r llithriannau hyn oedi'r gwaith o gynllunio



gweithgareddau a gefnogir gan y Gronfa. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2006, roedd cynllunio ar gyfer 2006/2007 yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen.

**2.12** Roedd y llithriannau yn arbennig o wael ar gyfer blwyddyn drosiannol 2004/2005, pan nad ymgynghorodd Llywodraeth y Cynulliad yn ffurfiol ar y Cylchlythyr tan fis Rhagfyr 2003, tua chwe mis yn ddiweddarach na'r bwriad. Roedd y llithriant yn bennaf o ganlyniad i'r angen i ddatblygu'r Cylchlythyr i adlewyrchu'r cyfnod pontio o GCAH i'r Gronfa Ysgolion Gwell ac i ystyried llinell sylfaen lawer is, ond cyfrannodd salwch staff yn nhîm y Gronfa Ysgolion Gwell at hyn hefyd. O fewn y cyfnod a gwtogwyd yn sylweddol, bu'n rhaid i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad nid yn unig hysbysu'r AALlau a chwaraewyr allweddol eraill ynghylch newidiadau yn y meysydd gweithgarwch, ond hefyd ynghylch y cyfnod pontio o GCAH i'r Gronfa Ysgolion Gwell a'r arian gostyngol a oedd ar gael o dan y trefniadau newydd. O ganlyniad, prin oedd yr amser a oedd ar gael i AALlau ac ysgolion wneud newidiadau i'w cynlluniau.

**2.13** Cafodd y llithriant o gylch cynllunio 2004/2005 effaith gynyddol ar yr amserlen gynllunio ar gyfer 2005/2006, yr effeithiwyd arni hefyd gan drafodaethau estynedig gydag AALlau a chan wybodaeth a gasglwyd ganddynt am ariannu'r maes gweithgarwch sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar. Yn dilyn hyn, penderfynodd Llywodraeth y Cynulliad ddiddymu'r maes gweithgarwch sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar o'r Gronfa Ysgolion Gwell, a gofyn i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru reoli hyn fel rhaglen grant ganolog.

**2.14** Dechreuodd Llywodraeth y Cynulliad gynllunio ar gyfer Cronfa Ysgolion Gwell 2006/2007 fis cyn y dyddiad a bennwyd. Ym mis Ionawr 2006, roedd wedi cyflawni'r holl gerrig milltir cynllunio, tra'n cynyddu ymgynghoriad ag AALlau a phartïon perthnasol eraill, a gwneud gwelliannau eraill i'r broses o reoli'r rhaglen. Mae wedi darparu cynlluniau gwario AALl i Estyn yn brydlon ac ar ffurf electronig, er mwyn i arolygwyr dosbarth Estyn allu archwilio ceisiadau ar yr adeg y cytunir arni yn eu rhaglen waith. Cred Llywodraeth y Cynulliad ei bod o fewn cyrraedd i gadarnhau dyraniadau terfynol ym mis Ionawr 2006.

## Gellid gwella asesiadau Llywodraeth y Cynulliad o gynlluniau gwario AALlau ymhellach

**2.15** Cydnabu Llywodraeth y Cynulliad yr anawsterau a wynebir gan AALlau o ganlyniad i gyhoeddi cylchlythyr 2004/2005 yn hwyr drwy symleiddio gofynion cynlluniau gwario a llacio'r rheolau ar gyfer dirprwyo arian i ysgolion. Estynnodd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynlluniau gwario AALl i fis Mawrth 2004, a gofynnodd i AALlau ddarparu gwybodaeth am dargedau a'u halldro rhagweledig ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn unig, heb destun ategol i esbonio eu cynlluniau. Drwy wneud hynny, derbyniodd Llywodraeth y Cynulliad y byddent yn asesu ceisiadau ar sail ei dadansoddiad o wybodaeth reoli am weithgareddau. Bu i arweinwyr polisi Llywodraeth y Cynulliad adolygu rhesymoldeb y wybodaeth hon, a cheisiwyd eglurhad neu addasiad o ran meysydd pryder, fel y gwnaed ganddynt yn y gorffennol.

**2.16** Gan fod Llywodraeth y Cynulliad wedi derbyn, ar gyfer 2004/2005 yn unig, na fyddai ond yn asesu cynigion ar sail ei dadansoddiad o wybodaeth reoli, nid ymgysylltodd ag arolygwyr dosbarth Estyn i ddarparu rhagasesiadau. Yn sgîl hyn, roedd yn anos asesu effeithiolrwydd tebygol gweithgareddau arfaethedig.

**2.17** Er mwyn helpu i fynd i'r afael â chyfyngiadau ei asesiadau o gynlluniau gwario AALlau ar gyfer 2004/2005, cynhaliodd tîm Cronfa Ysgolion Gwell Llywodraeth y Cynulliad ystod o ddadansoddiadau ansoddol o wybodaeth reoli AALl a rhannwyd y rhain ag arweinwyr polisi er mwyn amlygu unrhyw faterion a thueddiadau sylfaenol. Hwyluswyd y

dadansoddiadau hyn gan y broses o goladu gwybodaeth reoli AALl yn ganolog gan dîm y Gronfa Ysgolion Gwell, a fu o gymorth hefyd wrth geisio nodi a chanfod gwybodaeth a oedd ar goll. Bu i dîm y Gronfa Ysgolion Gwell hefyd wneud trefniadau i drafod cynnydd yn ystod y flwyddyn gydag AALlau.

**2.18** Bu i Lywodraeth y Cynulliad hefyd adfer cynlluniau gwario llawn ar gyfer 2005/2006, yn ôl y bwriad, ynghyd â gwelliannau pellach. Roedd y trefniadau newydd yn cynnwys gwahaniaethu'n gliriach rhwng y materion y dylai arweinwyr polisi Llywodraeth y Cynulliad eu hystyried ar y naill llaw ac Arolygwyr Estyn ar y llaw arall. Cyhoeddodd tîm y Gronfa Ysgolion Gwell ganllawiau hefyd ar gyfer aseswyr a oedd yn nodi'r cwestiynau allweddol y dylent eu hystyried, gan gynnwys digonolrwydd y gwerthusiadau. Fodd bynnag, nid oedd y canllawiau yn cynnwys safonau, o ran ansawdd y wybodaeth a oedd yn ofynnol i helpu i benderfynu p'un ai fodlonwyd meini prawf asesu, megis enghreifftiau o'r hyn a fyddai'n cyfrif fel trefniadau gwerthuso digonol. Er hynny, bu i dîm y Gronfa Ysgolion Gwell ofyn i arweinwyr polisi nodi enghreifftiau o arfer gwerthuso da mewn cynlluniau AALl, a rannodd wedyn â phob AALl.

## Ni chyfatebwyd y gostyngiad yn arian y rhaglen gan ostyngiad tebyg o ran ymdrech weinyddol AALl, er bod gofynion cynllunio addysg yn destun datblygu pellach

**2.19** Yn sgîl cyflwyno'r Gronfa Ysgolion Gwell, gostyngodd Llywodraeth y Cynulliad yr arian sydd ar gael o dan y cynllun 31 y cant, o £57.7 miliwn yn 2003/2004 i £39.6 miliwn yn 2004/2005. Nododd gwybodaeth a ddarparwyd gan AALlau i Lywodraeth y Cynulliad ostyngiad mewn costau gweinyddol o 22 y cant yn 2004/2005, er y cafwyd amrywiadau sylweddol rhwng AALlau. Nododd ein harolwg o AALlau, dros yr un cyfnod, fod yr amser a gymerwyd ganddynt i gynllunio a gweinyddu'r cynllun wedi gostwng 15 y cant yn unig. Felly, ni chyfatebwyd y gostyngiad yn arian y rhaglen gan ostyngiad tebyg o ran ymdrech weinyddol.

**2.20** Waeth beth fo'i faint, er mwyn bod yn effeithiol, mae angen mesurau diogelu gweinyddol penodol ar gynllun cymorth grant wedi'i dargedu, megis y Gronfa Ysgolion Gwell. Fodd bynnag, nododd AALlau yn ein harolwg bryderon bod proses gwneud cais a chymeradwyo'r Gronfa Ysgolion Gwell yn parhau i fod yn llafurus, er gwaethaf rhywfaint o symleiddio. Nododd ysgolion bryderon tebyg drwy ein harolwg a'n grŵp ffocws o benaethiaid a dirprwy benaethiaid, er y dylid nodi mai AALlau, yn hytrach na Llywodraeth y Cynulliad sy'n penderfynu ar ba gynlluniau ac adroddiadau sy'n ofynnol gan ysgolion. Er hynny, rhaid i lawer o'r wybodaeth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn mynnu gan AALlau gael ei chasglu o ysgolion.

**2.21** Mae rhai AALlau wedi cwestiynu pam bod angen cyflwyno cynlluniau gwario o gwbl, ar sail bod yn rhaid i'r cynlluniau atgynhyrchu cyfran helaeth o'r deunydd a gynhwysir yn y Cynlluniau Strategol Addysg y mae hefyd yn ofynnol i AALlau eu cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad er mwyn eu cymeradwyo. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal adolygiad o bob gweithgarwch cynllunio lleol yng Nghymru, sydd â'r nod o symleiddio'r gwaith o gynllunio gweithgareddau gwella llywodraeth leol, ac sydd i'w weithredu'n raddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. O ganlyniad, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno gofyniad i bob AALl gynhyrchu un cynllun addysg ar gyfer 2006-2008, sydd wedi'i dargedu at lefel uwch, mwy strategol na'r deunydd a gynhwysir yng nghynlluniau strategol addysg cyfredol awdurdodau. O 2008 ymlaen, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gael Cynllun Plant a Phobl Ifanc sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau gan gynnwys addysg. Fodd




bynnag, mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl na fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ei gofynion cynllunio ar gyfer y Gronfa Ysgolion Gwell, fel cynllun grant wedi'i dargedu.

**2.22** Er y dylai symleiddio gofynion cynllunio ymhellach alluogi arian i gael ei ailgyfeirio o'r broses weinyddi i weithgareddau sy'n gwella safonau, mae angen mesurau diogelwch digonol o hyd i sicrhau bod arian y Gronfa Ysgolion Gwell, fel grant wedi'i dargedu ar gyfer gweithgareddau penodol, yn cael ei wario ar y dibenion a fwriadwyd. Ar ben hynny, ni fydd cynlluniau lefel uchel ar eu pen eu hunain yn darparu sail ddigonol ar gyfer asesu effaith benodol gwariant ar fentrau newydd. Felly, bydd angen cynlluniau gwario ar Lywodraeth y Cynulliad o hyd o ran mentrau newydd a gaiff eu cefnogi gan y Gronfa Ysgolion Gwell. Fodd bynnag, os mai dim ond am gyfnod sefydlog o dair blynedd y mae'n rhaid cefnogi mentrau o'r fath, oni bai fod rhesymau penodol dros barhau i ddarparu arian, dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried p'un ai fyddai cynlluniau gwario tair blynedd, yn hytrach na blynyddol, yn fwy priodol.

## Gan fod y cymorth ariannol sydd ar gael o dan y Gronfa Ysgolion Gwell wedi lleihau, mae rhai gweithgareddau wedi dod i ben

**2.23** Gwelwyd gostyngiad o £18.1 miliwn mewn arian yn dilyn cyflwyno'r Gronfa Ysgolion Gwell yn 2004/2005, a diddymwyd rhai gweithgareddau o'r rhaglen newydd i ystyried hyn. Rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad gyngor i AALlau y byddai angen iddynt dalu'r costau cysylltiedig o'u setliadau refeniw, a gododd £110 miliwn (3.4 y cant) yn yr un flwyddyn os oeddent am i'r gweithgareddau hyn barhau yn lleol. Fodd bynnag, ni wnaeth Llywodraeth y Cynulliad drosglwyddo arian yn uniongyrchol o'r Gronfa Ysgolion Gwell i setliadau refeniw awdurdodau, ac mae dyraniadau o setliadau refeniw yn dibynnu ar flaenoriaethau a phenderfyniadau gwario awdurdodau lleol, yn hytrach na Llywodraeth y Cynulliad.

**2.24** O ganlyniad, tynnodd AALlau gymorth yn ôl o nifer o weithgareddau yn hytrach na darparu arian amgen. Dywedodd pob un o'r 22 AALl a thri chwarter yr ysgolion a arolygwyd fod rhai gweithgareddau wedi dod i ben yn dilyn y gostyngiad mewn arian a oedd ar gael o'r Gronfa Ysgolion Gwell.



# Rhan 3: Mae lle i wella'r gwerthusiad o weithgareddau a gefnogir gan y Gronfa Ysgolion Gwell ar bob lefel

**3.1** Mae gwerthuso'r Gronfa Ysgolion Gwell (a, chyn hynny, GCAH) yn effeithiol a'r gweithgareddau a gefnogir gan y Gronfa yn bwysig. Mae'n helpu i sicrhau, ac yn rhoi tawelwch meddwl i Lywodraeth y Cynulliad bod gweithgareddau a ariennir yn cael eu heffaith fwriadedig, a dylent lywio'r gwaith o gynllunio'r rhaglen yn y dyfodol, Dylai hefyd helpu AALlau i sicrhau bod arfer da a gefnogwyd gan y Gronfa Ysgolion Gwell yn cael ei ymgorffori wedi hynny yn y ddarpariaeth addysg brif ffrwd. Mae dull Llywodraeth y Cynulliad o sianelu adnoddau drwy gyrff llywodraeth leol sy'n atebol yn ddemocrataidd yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhan o'r gadwyn gyflenwi – Llywodraeth y Cynulliad, AALlau ac ysgolion – chwarae rôl yn y gwaith o fonitro a gwerthuso'r cynllun a'i effaith.

## Er i welliannau diweddar gael eu gwneud, mae lle i Lywodraeth y Cynulliad wella ei threfniadau ar gyfer gwerthuso'r Gronfa ymhellach

### Gan gydnabod y bu gwendidau, mae Llywodraeth y Cynulliad yn datblygu rhaglen dreigl o werthusiadau

**3.2** Yn 2001, argymhellodd archwiliad mewnol Llywodraeth y Cynulliad y dylid atgyfnerthu dull Llywodraeth y Cynulliad o fonitro a gwerthuso GCAH. Ac yn 2003, daeth adolygiad Llywodraeth y Cynulliad ei hun i'r casgliad ei bod yn anodd nodi effaith gadarnhaol GCAH a bod angen gwella'r dull o fonitro a gwerthuso o hyd, gwneud defnydd gwell o dystiolaeth Estyn a datblygu llwybr gwerthuso clir. Daeth yr adolygiad hefyd i'r casgliad y bu gofynion gwybodaeth reoli'r cynllun yn gymhleth, ac yn gyffredinol, ni fu o gymorth wrth fonitro a gwerthuso. Arweiniodd argymhellion o'r arolygiad hwn at gyflwyno'r Gronfa Ysgolion Gwell i ddisodli GCAH yn 2004/2005 a mwy o ffocws ar werthuso.

**3.3** Nododd y rhan fwyaf o arweinwyr polisi Llywodraeth y Cynulliad y bu i ni gyfweld â hwy i'w hasesiadau o dueddiadau mewn perfformiad gael eu llywio gan ganfyddiadau adroddiadau blynyddol Estyn ac adroddiadau a oedd yn ymwneud â meysydd gweithgarwch penodol. Mae adroddiadau Estyn yn nodi, mewn rhai meysydd, i GCAH gael effaith fuddiol ar safonau mewn ysgolion[6]. Yn arbennig, nododd yr adroddiadau ar effaith GCAH ar ymddygiad a phresenoldeb ysgolion[7], a llythrennedd a rhifedd[8], gydberthynas uniongyrchol rhwng gweithgareddau a ariennir gan GCAH a gwella safonau ysgol. Mae adroddiadau Estyn hefyd wedi cofnodi effaith fuddiol cyrsiau a ariennir gan GCAH ar gyfer grwpiau megis athrawon arbenigol a chynorthwywyr ystafell ddosbarth, a chyrsiau AALl i sicrhau bod athrawon ysgolion cynradd nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gymwys o ran dysgu ac addysgu'r iaith i lefel ysgol gynradd. Ar y llaw arall, canfu gwerthusiad Estyn o brosiectau Menter Mynediad Ieuenctid Cymru yn 2002, o ganlyniad i drefniadau gwerthuso AALlau ac ysgolion annigonol, nad oedd yn glir sut y bu i

6 Nid yw Estyn wedi cynhyrchu adroddiad hyd yma yn ymwneud yn benodol â'r Gronfa Ysgolion Gwell, ond, gan mai parhad, i raddau helaeth yw Meysydd Gweithgarwch y Gronfa, o Feysydd Gweithgarwch GCAH, mae adroddiadau Estyn ar GCAH yn parhau i fod yn berthnasol.

7 Estyn, *Gwerthusiad o effaith rhaglen GCAH ar bresenoldeb ac ymddygiad mewn ysgolion*, 2003

8 Estyn, *Rôl AALlau yn y gwaith o godi safonau ym maes llythrennedd*, 2000



arian a ddirprwywyd i ysgolion wella'r broses o ledaenu arfer da neu sut y'i defnyddiwyd i weithredu newid gwirioneddol mewn ysgolion[9].

**3.4** Nid yw Estyn wedi gwerthuso'r holl weithgareddau a ariannwyd gan GCAH a'r Gronfa Ysgolion Gwell nac wedi cyflwyno adroddiadau arnynt, gan nad yw cwmpasu systematig yn rhan o gylch gwaith Estyn. Mae gweithgareddau lle y cynhelir asesiadau cyfyngedig neu ddim asesiad o gwbl o'u heffeithiolrwydd gan Estyn yn cynnwys rhai ym maes gweithgarwch cwricwlwm ysgolion, megis Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

**3.5** Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn cynnwys terfyn ariannu tair blynedd ar gyfer meysydd blaenoriaeth unigol, gofyniad i gael strategaeth gadael ar gyfer pob maes gweithgarwch a blaenoriaeth newydd, a gofyniad ar gyfer gwerthusiad ffurfiol o bob maes blaenoriaeth o fewn tair blynedd i'w cynnwys yn y rhaglen. Yn unol â hynny, gan ddechrau yn 2005/2006, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu rhaglen dreigl o werthusiadau o'r holl feysydd gweithgarwch a blaenoriaeth a gefnogir gan y Gronfa, ac mae'r cylchlythyr ar gyfer 2006/2007 yn nodi'r meysydd blaenoriaeth y bwriedir eu gwerthuso yn ystod 2006/2007. Fodd bynnag, nid oes unrhyw drefniadau wedi eu rhagnodi ar gyfer sut y dylid cynnal gwerthusiad, er mai adroddiad a gomisiynir gan Estyn yw'r gofyniad sylfaenol argymelledig. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i'w harweinwyr polisi ystyried trefniadau amgen pan na all Estyn ymgymryd â'r gwaith hwn, neu pan fyddai'n fwy priodol mabwysiadu ymagwedd wahanol.

## Mae Llywodraeth y Cynulliad yn casglu data ar gynnyrch a rhai canlyniadau, ond mae ei dadansoddiad o'r data yn darparu tystiolaeth annigonol o effaith gweithgareddau a ariennir

**3.6** Mae'r cylchlythyr blynyddol mwyaf diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i AALlau nodi tua 50 o Ddangosyddion Perfformiad[10]. Mesurau canlyniadau meintiol yw'r rhan fwyaf ohonynt, megis nifer y cyfranogwyr sy'n derbyn hyfforddiant mewn maes penodol. Archwiliodd y rhan fwyaf o arweinwyr polisi Llywodraeth y Cynulliad y bu i ni gyfweld â hwy ddangosyddion perfformiad o'r fath ac, o gofio eu gwybodaeth am allu ac anghenion pob awdurdod, bu iddynt ystyried pa un a oedd y dangosyddion ar y lefel ddisgwyliedig. Er bod ystyriaeth o'r fath yn rhoi rhywfaint o dawelwch meddwl bod AALlau yn gweithredu ar y gweithgareddau bwriadedig, gan fod y rhan fwyaf o'r mesurau yn olrhain cynnyrch yn hytrach na chanlyniadau, nid yw'n darparu tystiolaeth o gysylltiadau achlysurol rhwng gweithgareddau a ariennir a gwelliannau mewn safonau.

**3.7** Mewn rhai meysydd gweithgarwch, megis cymorth disgyblion, mae arweinwyr polisi hefyd yn archwilio Dangosyddion Perfformiad y bwriedir iddynt fesur canlyniadau – er enghraifft canran y disgyblion blwyddyn 11 o leiafrifoedd ethnig sy'n ennill pum gradd A* i C neu fwy ar lefel TGAU. Roedd un arweinydd polisi y bu i ni gyfweld ag ef wedi cynnal dadansoddiad tueddiadau meintiol o ganlyniadau profion ac arholiadau. Fodd bynnag, gan na roddwyd ystyriaeth i ddylanwadau eraill ar ganlyniadau, nid oedd y dadansoddiad yn darparu tystiolaeth ddibynadwy o effeithiolrwydd gweithgareddau a ariennir. Er bod ystyried dylanwadau posibl eraill yn heriol, ac yn gofyn am wybodaeth reoli gymharol, er enghraifft, nid yw'r dadansoddiad yn werthfawr iawn hebddynt.

9 Adroddiad Terfynol: Menter Mynediad Ieuenctid Cymru – Gwerthusiad Estyn o brosiectau a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Mehefin 2002

10 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gostwng nifer y dangosyddion ers GCAH, o ganlyniad i ostyngiad yn nifer y meysydd gweithgarwch ac i ystyried sylwadau AALlau ar yr angen i symleiddio'r system fonitro.

**3.8** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgynghori ag AALlau yn benodol ar wybodaeth reoli i olrhain cynnydd gweithgareddau yn ystod blynyddoedd diweddar, ac mae gan awdurdodau hefyd y cyfle i wneud sylwadau ar ofynion gwybodaeth reoli bob blwyddyn yn ystod y broses o ymgynghori ar y cylchlythyr drafft. Er hynny, dywedodd 19 o blith y 22 o AALlau wrthym mai dim ond yn rhannol berthnasol yr oedd y wybodaeth reoli y bu i Lywodraeth y Cynulliad wneud cais amdani, yn eu barn hwy. Dywedodd tri awdurdod wrthym hefyd nad oedd llawer o'r hyn a gasglwyd ganddynt ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad yn ddefnyddiol at eu dibenion hwy eu hunain. Cododd Llywodraeth y Cynulliad y mater hwn gydag AALlau yn y cyfarfod ymgynghori ar Gylchlythyr drafft 2006/2007, ac fe'u gwahoddwyd i ymuno â thrafodaethau ar ddatblygu set fwy defnyddiol o fesurau. Mae'n ceisio datblygu mesurau o ganlyniadau yn hytrach na chynnyrch, gan gynnwys dirprwy fesurau lle nad yw mesur canlyniadau'n uniongyrchol yn ymarferol. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol yn ystod mis Medi 2005 a gwneir gwaith dilynol arno ar yr un pryd â datblygu canllawiau ar werthusiadau.

### Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi mwy o bwyslais ar yr angen i werthuso'r Gronfa Ysgolion Gwell yn lleol, ond nid yw ei chanllawiau i AALlau yn rhoi cyngor ymarfer ol ar werthusiadau

**3.9** Nododd y cylchlythyr ar gyfer 2004/2005, a eglurodd y trefniadau ar gyfer pontio o GCAH i'r Gronfa Ysgolion Gwell, fod Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i ddatblygu rhaglen yn seiliedig ar dystiolaeth, ac y dylai AALlau ac ysgolion sefydlu trefniadau gwerthuso effeithiol o ran cost. Ac ar gyfer 2005/2006, gofynnwyd i AALlau ac ysgolion gyflenwi cynigion a manylion gwerthusiadau a gynhaliwyd yn ystod 2004/2005, gan gynnwys casgliadau a luniwyd a'r gwersi a ddysgwyd.

**3.10** Dywedodd tîm Cronfa Ysgolion Gwell Llywodraeth y Cynulliad, mewn achosion lle y bu i AALlau ddarparu deunydd gwerthuso i ategu eu cynlluniau, ei fod yn tueddu i ganolbwyntio ar y broses werthuso, yn hytrach na'r casgliadau a sut y byddai'n rhaid ystyried y rhain wrth ddatblygu cynigion gwario AALl. Fodd bynnag, ni ddaeth cyngor ymarferol ar sut y dylid cynnal gwerthusiadau gyda'r gofynion ar gyfer gwerthuso a nodwyd yn y cylchlythyr ar gyfer 2004/2005. Roedd mwy na hanner yr AALlau o'r farn bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynhyrchu canllawiau annigonol ar werthusiadau. Dywedodd naw wrthym hefyd, yn 2004/2005, nad oedd Llywodraeth y Cynulliad erioed wedi gofyn iddynt am ganlyniadau eu gwaith gwerthuso.

**3.11** Prin yw cymhelliannau neu sancsiynau effeithiol Llywodraeth y Cynulliad i annog AALlau i werthuso effaith gwariant y Gronfa Ysgolion Gwell. Fodd bynnag, am y tro cyntaf, gwrthododd Llywodraeth y Cynulliad roi cymeradwyaeth grant 2005/2006 i bedwar AALl nad oeddent wedi darparu'r wybodaeth reoli ofynnol, a hynny dros dro.

**3.12** Dylai fod gan AALlau allu ac adnoddau datblygedig ar gyfer gwerthuso, er mwyn rheoli gweithgareddau a gefnogir gan eu harian eu hunain yn effeithiol ac er mwyn bodloni eu gofynion atebolrwydd cyhoeddus. Fodd bynnag, wrth ddarparu grantiau wedi eu targedu i ariannu gweithgareddau i ddilyn ei hamcanion a'i blaenoriaethau eu hun, dylai Llywodraeth y Cynulliad ddarparu canllawiau ar safonau gwerthuso y mae'n disgwyl i AALlau eu cynnal fel amod grant. Yn ogystal, er mwyn dilyn rhaglen sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys nifer fawr o sefydliadau partner, mae'n hanfodol bod Llywodraeth y Cynulliad yn chwarae rôl gydlynol i sicrhau cysondeb a dibynadwyedd yn y sail dystiolaeth.

## Mae lle i AALlau ac ysgolion wella eu gwerthusiad

**3.13** Nododd Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2002/2003 y gallai'r rhan fwyaf o AALlau wneud rhagor i werthuso'r effaith y caiff hyfforddiant a ariennir gan GCAH ar waith ysgolion, ac i nodi a



rhannu arfer da. Ymhlith pryderon eraill a godwyd gan Estyn roedd:

- GCAH yn cael ei ddefnyddio i ariannu penodiadau staff byrdymor heb roi trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso'n effeithiol y gweithgareddau a gynhaliwyd ganddynt;[11]
- prinder gwerthusiadau gan AALlau o fentrau, megis menter Mynediad Ieuenctid Cymru, sy'n cael buddsoddiad sylweddol o arian GCAH.

Mae'r dull o fonitro a gwerthuso prosiectau yn amrywio'n sylweddol rhwng meysydd ac mae'n peri pryder gwirioneddol. Mae'r gwaith cychwynnol o bennu targedau ar gyfer prosiectau yn wan. Nid oes gan lawer system i werthuso'r Fenter Mynediad Ieuenctid a ddarperir yn gyffredinol, nac i fonitro'r broses o weithredu eu cynlluniau, yn arbennig o ran gofynion GCAH.

*Ffynhonnell: Estyn, Adroddiad Terfynol: Menter Mynediad Ieuenctid Cymru, 2002*

**3.14** Ymhlith yr enghreifftiau o werthusiadau a gynhaliwyd gan AALlau ac ysgolion a archwiliwyd gennym roedd rhai a oedd yn gryf o ran asesu cryfderau a gwendidau yn y modd y caiff mentrau eu cynllunio a'u cymhwyso. Fodd bynnag, ni roddwyd llawer o dystiolaeth ganddynt o ran effeithiolrwydd gweithgareddau a ariennir yng nghyd-destun codi safonau, ar wahân i asesiadau a chyfeiriadau goddrychol at adroddiadau arolygu Estyn. Roedd y diffyg hwn yn gymwys i werthusiadau a roddwyd ar gontract yn ogystal â'r rheini a gynhaliwyd yn fewnol.

**3.15** Nododd ein hymweliadau maes ag AALlau a'n ffurflenni arolygu ganddynt y caiff y defnydd o arian ei werthuso gan AALlau i raddau amrywiol ac mewn ffyrdd gwahanol, er y cafwyd enghreifftiau o arfer da, rhai yn cynnwys ymgynghorwyr allanol (Ffigurau 7, 8 a 9). Dywedodd pob AALl eu bod yn annog ysgolion i werthuso gweithgareddau a ariennir, a dywedodd pedwar nad oeddent yn gwerthuso gweithgareddau eu hunain, ond eu bod yn hytrach yn dibynnu ar werthusiadau ysgolion i lywio penderfyniadau AALlau ar flaenoriaethau. Fodd bynnag, dim ond 83 y cant o ysgolion a arolygwyd a ddywedodd fod AALlau yn eu hannog i werthuso gweithgareddau a ariennir.

**3.16** O ganlyniad, dim ond traean o'r ysgolion a arolygwyd a nododd i unrhyw waith gwerthuso gael ei gyflawni ers 2003, a dim ond 10 y cant wnaeth nodi iddynt werthuso'r holl weithgareddau a ariennir. Roedd graddau'r gwaith gwerthuso a gyflawnwyd gan ysgolion yn amrywio o ffurflenni ticio blychau a gwblhawyd ar ôl cwblhau cyrsiau i arsylwi gwaith athrawon a disgyblion ac ymddygiad cyfoedion neu staff cynghori yn uniongyrchol.

## Ffigur 7: Gwerthuso yn AALl Powys

Mae AALl Powys yn storio ei ddata gwerthuso yn electronig ar gronfa ddata ganolog, y mae'n ei hadolygu'n flynyddol fel rhan o'r broses o ddatblygu ei Gynllun Strategol Addysg. Mae'r AALl yn ei gwneud yn ofynnol i bawb sy'n mynychu cyrsiau gwblhau ffurflen werthuso ar ddiwedd pob cwrs. Mae'r sawl sy'n mynychu cyrsiau yn sgorio'r cyrsiau o ran i ba raddau y bodlonwyd amcanion dysgu, ac i ba raddau y mae'r cwrs wedi bodloni nodau ac amcanion penodol. Ar ôl pob digwyddiad hyfforddi, mae'n ofynnol i athrawon lunio pwyntiau gweithredu personol sy'n dangos eu hamcanion datblygu, eu rôl yn y gwaith o ledaenu dysgu o fewn eu hysgol, ac effaith eu hyfforddiant ar yr ysgol gyfan.

Ers 2004, mae'r AALl wedi defnyddio cynghorydd cyswllt i ymweld ag ysgolion ac i weithio ar y cyd ag athrawon i werthuso hyfforddiant a gweithgareddau eraill, yn hytrach na dibynnu ar athrawon i gwblhau ffurflenni gwerthuso. Mae hyn wedi cynyddu nifer y gwerthusiadau a'u hansawdd.

*Ffynhonnell: AALl Powys*

11 Estyn, Rôl AALlau wrth godi safonau llythrennedd, 2000

### Ffigur 8: Monitro effaith hyfforddiant yn AALl Conwy

Nododd Estyn fod gan AALl Conwy weithdrefnau arbennig o effeithiol ar gyfer monitro addasrwydd ac effaith gweithgareddau hyfforddi yn y cam sylfaenol.

Yn ystod tymor yr haf, mae'r AALl yn gofyn i'w ysgolion cynradd nodi pa ddigwyddiadau hyfforddi y maent yn bwriadu cyfranogi ynddynt yn ystod y flwyddyn academaidd ganlynol. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r AALl yn gofyn i ysgolion fyfyrio ar yr effaith y mae'r hyfforddiant wedi ei chael, a nodi gwelliannau penodol sydd wedi digwydd o ganlyniad. Mae'n ofynnol i ysgolion restru'r prif bwyntiau gweithredu a'u heffaith o ran pob digwyddiad hyfforddi.

Mae'r ymagwedd hon yn annog ysgolion i ystyried yn ofalus pa un a yw hyfforddiant arfaethedig yn gyson â'u hanghenion datblygiadol, ar sail eu hunanwerthusiad ac amcanion cynllun datblygu'r ysgol. Mae'n helpu ysgolion i werthuso effeithiolrwydd y gwasanaethau y maent yn eu prynu oddi wrth yr AALl ac yn annog ysgolion i sicrhau bod digwyddiadau hyfforddi yn arwain at welliannau yn yr ystafell ddosbarth.

Ar ymweliadau dilynol, mae swyddogion cyswllt ysgol yn trafod camau gweithredu dilynol y mae ysgolion wedi eu nodi.

*Ffynhonnell: Estyn, Arolygiad o Wasanaethau Gwella Ysgolion Awdurdod Addysg Lleol Conwy, 2004*

### Ffigur 9: Gwerthusiad allanol o weithgareddau a ariennir gan GCAH

Mae **AALl Abertawe** yn gwerthuso ei gynlluniau ar gamau allweddol gan ddefnyddio arbenigwyr addysg uwch sy'n gweithio ochr yn ochr â swyddogion AALl ac athrawon. Mae'r gwerthusiad yn ymwneud yn bennaf â chryfderau a gwendidau o ran pa un a yw deunydd yn berthnasol i anghenion yr ystafell ddosbarth. Llywir y gwerthusiadau hefyd gan asesiadau eang ynglŷn â ph'un ai yw safonau'n gwella.

Cynhelir y gwerthusiadau mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru, Abertawe ac Athrofa Addysg Uwch Abertawe. Ymhlith y buddiannau i AALl Abertawe mae dealltwriaeth gyffredin o'r cyd-destun addysgol yn Abertawe.

Yn **AALl Sir Benfro** ceir ymagwedd driphlyg tuag at werthuso effaith gweithgareddau: gan ysgolion, gan yr AALl a chan ymgynghorydd allanol a gomisiynwyd gan yr AALl. Mae'r AALl yn gwerthfawrogi'r gwerthusiad gwrthrychol a ddarperir gan yr ymgynghorwyr allanol. Mae'n canolbwyntio ar effaith gweithgareddau a ariennir gan y Gronfa Ysgolion Gwell a gynhelir ar faes blaenoriaeth penodol, er enghraifft TGCh. Defnyddir y gwerthusiadau i lywio'r broses o gynllunio yn y dyfodol, ac i hysbysu rhanddeiliaid am y defnydd a wneir o'r Gronfa Ysgolion Gwell yn Sir Benfro.

Yn ogystal â hunanwerthusiadau, defnyddiodd **AALl Caerdydd** werthuswyr allanol i roi safbwynt allanol i'w Strategaeth Ymyrryd mewn Llythrennedd yn Gynnar. Cynhaliwyd y gwerthusiad allanol ar y cyd â phroses werthuso flynyddol sefydledig a thrwyadl a gynhaliwyd gan bob tîm gweithgarwch a hysbyswyd uwch reolwyr AALl amdanynt.

Gofynnwyd i'r gwerthuswr allanol gael "cipolwg ar effaith gweithgareddau'r Strategaeth Ymyrraeth Gynnar yn gyffredinol a'u heffeithiolrwydd fel strategaeth integredig", a chymharu strategaeth Caerdydd â strategaethau AALlau eraill yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Nododd y gwerthusiad allanol gryfderau a diffygion strategaeth yr AALl, a bu'n fodd i uwch reolwyr nodi a oedd yn gweithio'n effeithiol a'r gweithgareddau hynny lle yr oedd angen newid eu pwyslais. Amlygodd hefyd agweddau ar y dasg o reoli'r gwaith yr oedd angen eu hailstrwythuro.

*Ffynhonnell: AALlau Abertawe, Sir Benfro a Chaerdydd*



# Atodiad 1: Methodoleg

1 Roedd methodoleg ein hastudiaeth yn cynnwys y camau canlynol:

- casglu tystiolaeth gan Lywodraeth y Cynulliad ac Estyn;
- cyfweliadau â rhanddeiliaid o sefydliadau addysg eraill;
- arolygon o'r holl AALlau a sampl o ysgolion;
- grŵp ffocws o benaethiaid a dirprwy benaethiaid;
- ymweliadau ag AALlau;
- trafodaethau panel arbenigol.

## Casglu tystiolaeth gan Lywodraeth y Cynulliad ac Estyn

2 Bu i ni gyfweld â swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â'r canlynol:

- eu cyfraniad i'r broses o weinyddu GCAH a'r Gronfa Ysgolion Gwell, a'r dasg o ddatblygu'r cylchlythyr blynyddol;
- eu proses o fonitro a gwerthuso effaith y cynllun;
- eu proses o fonitro a gwerthuso AALlau ar ôl iddynt dderbyn arian.

3 Bu i ni archwilio ffeiliau cynnig, cais a thalu'r cynllun, ac argymhellion adolygiad archwiliad mewnol Llywodraeth y Cynulliad ac adolygiad o GCAH Adran Hyfforddiant ac Addysg Llywodraeth y Cynulliad a'r ymatebion iddynt.

4 Bu i ni gyfweld â staff Estyn ynglŷn â'r canlynol:

- eu cyfraniad i'r broses o weinyddu GCAH drwy archwilio cynlluniau gwario AALl;
- eu gwerthusiad o effaith arian mewn ysgolion.

5 Bu i ni archwilio gwerthusiadau Estyn o gynlluniau gwario AALlau.

## Cyfweliadau â rhanddeiliaid o sefydliadau addysg eraill

6 Bu i ni gyfweld ag uwch swyddogion yng Nghyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ac Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru ynglŷn â chyfranogiad eu sefydliadau yn y broses o weinyddu GCAH.

## Arolygon

7 Anfonwyd arolwg at bob un o'r 22 AALl yn 2004 er mwyn cael gwybodaeth am y broses o weinyddu GCAH a'r Gronfa Ysgolion Gwell, eu harian, eu heffaith a'u gwerthusiadau. Ymatebodd pob AALl.

8 Bu i ni hefyd gynnal arolwg o sampl o 10 y cant o ysgolion yng Nghymru (186) ledled pob un o'r 22 AALl. Gofynnodd yr arolwg hwn hefyd am y broses o weinyddu GCAH a'r Gronfa Ysgolion Gwell, eu harian, eu heffaith a'u gwerthusiadau. Derbyniwyd ymatebion gan 51 o ysgolion (27 y cant o'r sampl).

9 Gan fod yn ymwybodol o lwyth gwaith ysgolion, bu i ni gydlynu ein sampl ag arolwg treigl o ysgolion Llywodraeth y Cynulliad.

10 Bu i ni ymgynghori â phob un o'r saith undeb athrawon ar gwmpas yr astudiaeth a gofynnwyd iddynt am eu barn ar brif faterion yr astudiaeth. Ymatebodd un undeb, sef Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, gan ddarparu sylwadau.

## Ymweliadau ag AALlau

11 Bu i ni ymweld â'r pum AALl canlynol: Sir Ddinbych; Gwynedd; Castell-nedd Port Talbot; Casnewydd a Phowys. Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig â chydlynwyr priodol y Gronfa Ysgolion Gwell, swyddogion cyswllt (cynghorwyr AALl) a phenaethiaid. Fel rhan o'r ymweliadau â'r AALlau, bu i ni ymweld â dwy ysgol i weld sut y bu iddynt wario arian GCAH a'r Gronfa Ysgolion Gwell ac i gasglu safbwyntiau ychwanegol yn uniongyrchol gan athrawon. Cynhaliwyd cyfweliad lled-strwythuredig hefyd â chadeirydd Consortia Trecelyn/Cross Keys i ddogfennu enghraifft o'r modd y mae consortia yn defnyddio'r arian.

12 Bu i ni archwilio a dogfennu enghreifftiau achos o agweddau ar y broses o weinyddu GCAH a'r Gronfa Ysgolion Gwell o fewn AALlau Caerdydd, Sir Benfro, Conwy, Powys ac Abertawe.

## Grŵp ffocws

13 Trefnwyd grŵp ffocws bach o benaethiaid a dirprwy benaethiaid i ystyried eu barn ar y gwaith o gynllunio, gweinyddu ac effaith y Gronfa Ysgolion Gwell. Roedd y grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'n pedwar AALlau ac yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd.

14 Rydym yn ddiolchgar i'r aelodau canlynol o'n grŵp ffocws:

- Alan Fowles, Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gyfun y Bont-faen, Bro Morgannwg;
- Marc Jones, Pennaeth, Ysgol Croes Atti, Sir y Fflint;
- Kevin McAnulty, Pennaeth, Ysgol Gynradd Abercarn, Caerffili;
- Chris Tonkin, Pennaeth, Ysgol Gynradd Sirol Llandrindod, Powys.

## Panel o arbenigwyr

15 Lluniwyd panel o arbenigwyr i'n cynghori yn ystod yr archwiliad. Roedd aelodau'r panel yn gweithio'n unigol ac mewn rôl gynghori, ac nid oeddent yn chwarae rôl weithredol yn archwiliad Archwilydd Cyffredinol Cymru. Detholwyd unigolion a oedd, gyda'i gilydd, yn adlewyrchu ystod briodol o randdeiliaid.

16 Rhoddodd y panel gyngor i ni ar gamau allweddol o'r astudiaeth. Cynhaliwyd dau gyfarfod gennym a oedd yn trafod y canlynol:

- cwmpas a methodoleg yr astudiaeth;
- ein canfyddiadau sydd ar ddod.

17 Rhoddodd aelodau o'r panel gyngor i ni o bell hefyd ar gynnwys ein harolygon, a derbyniodd pob aelod o'r panel fersiynau drafft ein canfyddiadau a'n hargymhellion allweddol er mwyn rhoi sylwadau arnynt.

18 Rydym yn ddiolchgar i'r aelodau canlynol o'n panel arbenigol, a roddodd gyngor defnyddiol i ni ac a roddodd o'u hamser a'u harbenigedd:

- Hilary Anthony, Arolygydd Ei Mawrhydi, Estyn;
- Maria Boex, Swyddog Datblygiad Proffesiynol Parhaus, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;
- Gillian Coleman, Pennaeth, Ysgol Gynradd Trewiliam, Rhondda Cynon Taf;
- Sylvia Jones, Uwch Swyddog Addysg, Awdurdod Addysg Lleol Sir Ddinbych;



- Trevor Jones, Dirprwy Bennaeth, Ysgol Uwchradd (Uwch) Cyfarthfa;
- Farrukh Khan, Arolygydd Ei Mawrhydi, Estyn;
- Hugh Knight, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, Prif Swyddog Gwasanaethau Ysgolion, Cyngor Sir Caerdydd;
- John Wilkins, Dirprwy Bennaeth, Ysgol Gyfun St Cyres;
- John Valentine Williams, Prif Weithredwr, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru;
- Seimon Williams, Swyddog Addysg, CLILC.

| 1999-00 | 2000-01 |
|---|---|
| **Gweithgarwch 1: Rheoli GCAH**<br>1a: Rheoli rhaglen 1999-2000 | **Gweithgarwch 1: Rheoli GCAH**<br>1a: Rheoli rhaglen 2000-2001 |
| **Gweithgarwch 2: Cymraeg yn y cwricwlwm cenedlaethol/cymorth ar gyfer trosglwyddo i addysgu cyfrwng Cymraeg**<br>2a: Datblygu sgiliau iaithyddol athrawon<br>2b: Gwella safonau cyrhaeddiad yn y Gymraeg mewn ysgolion cynradd<br>2c: Rhaglenni rhyng-awdurdod<br>2ch: Cymorth i drosglwyddo i addysgu cyfrwng Cymraeg | **Gweithgarwch 2: Cymraeg yn y cwricwlwm cenedlaethol/cymorth ar gyfer trosglwyddo i addysgu cyfrwng Cymraeg**<br>2a: Datblygu sgiliau iaithyddol athrawon<br>2b: Gwella safonau cyrhaeddiad yn y Gymraeg mewn ysgolion cynradd<br>2c: Rhaglenni rhyng-awdurdod<br>2ch: Cymorth i drosglwyddo i addysgu cyfrwng Cymraeg |
| **Gweithgarwch 3: Codi safonau drwy'r cwricwlwm**<br>3a: Gwella safonau ar lefel ysgolion cynradd<br>3b: Gwella safonau ar lefel uwchradd<br>3c: Asesiad y cwricwlwm cenedlaethol<br>3ch: Nis defnyddir – gweler Gweithgarwch 11<br>3d: Nis defnyddir – gweler Gweithgarwch 12<br>3dd: Addysg gorfforol, personol a chymdeithasol<br>3e: Addysg grefyddol<br>3f: Amddiffyn plant<br>3ff: Asesiad sylfaenol | **Gweithgarwch 3: Codi safonau drwy'r cwricwlwm**<br>3a: Y sector cynradd: adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol 2000<br>3b: Y sector uwchradd: adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol 2000 a diwygiadau i'r cymhwyster ôl-16<br>3c: Asesiad cwricwlwm cenedlaethol<br>3ch: Addysg bersonol a chymdeithasol<br>3d: Addysg yn ymwneud â gwaith<br>3dd: Addysg grefyddol<br>3e: Asesiad sylfaenol<br>3f: addysg gorfforol a chwaraeon |
| **Gweithgarwch 4: Gwella perfformiad drwy ddeunydd a thechnoleg newydd**<br>4a: Llyfrau a deunydd cwricwlwm cyhoeddedig eraill<br>4b: Nis defnyddir<br>4c: Gwella sgiliau athrawon ym maes technoleg gwybodaeth<br>4ch: Ar draws y cwricwlwm<br>4d: Nis defnyddir<br>**Gweithgarwch 13: Grid cenedlaethol ar gyfer dysgu**<br>13a: Grid cenedlaethol ar gyfer dysgu<br>13b: Prosiectau arloesol NGFL (cynigion ar y cyd) | **Gweithgarwch 4: Gwella perfformiad drwy ddeunydd a thechnoleg newydd**<br>4a: Llyfrau a deunydd cwricwlwm cyhoeddedig eraill<br>4b: Gwella sgiliau athrawon ym maes technoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm<br>**Gweithgarwch 13: Grid cenedlaethol ar gyfer dysgu**<br>13a: Grid cenedlaethol ar gyfer dysgu<br>13b: Prosiectau ar y cyd ar gyfer defnyddio TGCh yn arloesol i gefnogi addysgu a dysgu |
| **Gweithgarwch 5: Rheoli ac arwain ysgolion**<br>5a: Pennu targedau a'u monitro<br>5b: Datblygu sgiliau rheoli ac arwain ysgolion<br>5c: Gweithredu arian teg mewn ysgolion gan gynnwys systemau gwybodaeth reoli<br>5ch: Triwantiaeth a disgyblaeth<br>5d: Cymhwyster proffesiynol cenedlaethol ar gyfer swydd pennaeth<br>5dd: Hyfforddiant ar gyfer gwasanaethu penaethaid<br>**Gweithgarwch 6: Cymorth ar gyfer datblygu athrawon**<br>6a: Datblygiad proffesiynol athrawon<br>6b: Llwybr sy'n seiliedig ar gyflogaeth i addysgu<br>6c: Sefydlu athrawon newydd gymhwyso | **Gweithgarwch 5: Rheoli ac arwain ysgolion**<br>5a: Pennu targedau a'u monitro<br>5b: Gweithredu arian teg mewn ysgolion gan gynnwys systemau gwybodaeth reoli<br>5c: Datblygu sgiliau rheoli ac arwain ysgolion<br>5ch: Cymhwyster proffesiynol ar gyfer swydd pennaeth<br>5d: Rhaglen sefydlu penaethiaid broffesiynol<br>5dd: Rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer gwasnaethu penaethiaid<br>5e: Hyfforddiant i gefnogi'r adolygiad o berfformiad a chyflog dirprwy benaethiaid<br>5f: Hyfforddiant i gefnogi'r broses o ddatblygu polisïau rheoli perfformiad ysgolion<br>**Gweithgarwch 6: Cymorth ar gyfer datblygu athrawon**<br>6a: Datblygiad proffesiynol athrawon<br>6b: Llwybr sy'n seiliedig ar gyflogaeth i addysgu<br>6c: Sefydlu athrawon newydd gymhwyso<br>6ch: Athro sgiliau uwch<br>6d: Athrawon llwybr carlam |
| **Gweithgarwch 7: Darparu ar gyfer plant o dan 5 oed**<br>7a: Cydlynu darpariaeth a gwella sgiliau staff | **Gweithgarwch 7: Darparu ar gyfer plant o dan 5 oed**<br>7a: Cydlynu darpariaeth a gwella sgiliau staff |
| **Gweithgarwch 8: Gweithwyr ieuenctid a chymunedol**<br>8a: Hyfforddiant i gefnogi gwaith gweithwyr ieuenctid a chymunedol<br>**Gweithgarwch 10: Menter mynediad ieuenctid**<br>10a: Menter mynediad ieuenctid<br>**Gweithgarwch 16: Saesneg fel iaith ychwanegol**<br>16a: Saesneg fel iaith ychwanegol | **Gweithgarwch 8: Gweithwyr ieuenctid a chymunedol**<br>8a: Hyfforddiant i gefnogi gwaith gweithwyr ieuenctid a chymunedol<br>**Gweithgarwch 10: Menter mynediad ieuenctid**<br>10a: Menter mynediad ieuenctid<br>**Gweithgarwch 19: Presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol**<br>19a: Presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol<br>19b: Amddiffyn plant<br>**Gweithgarwch 16: Cyflawniad lleiafrifoedd ethnig**<br>16a: Cyflawniad lleiafrifoedd ethnig |
| **Gweithgarwch 9: Anghenion addysgol arbennig**<br>9a: Gwella sgiliau athrawon sy'n addysgu plant ag anghenion addysgol arbennig.<br>9b: Polisïau/cod ymarfer AAA ysgolion<br>9c: Personau a enwir/cefnogwyr rhieni annibynnol a threfniadau cymodi lleol<br>9ch: Cynllunio rhanbarthol o ran darpariaeth AAA | **Gweithgarwch 9: Anghenion addysgol arbennig**<br>9a: Gwella sgiliau athrawon sy'n addysgu plant ag anghenion addysgol arbennig.<br>9b: Polisïau/cod ymarfer AAA ysgolion<br>9c: Personau a enwir/cefnogwyr rhieni annibynnol a threfniadau cymodi lleol<br>9ch: Cynllunio rhanbarthol o ran darpariaeth AAA |
| **Gweithgarwch 11: Codi safonau llythrennedd**<br>11a: Codi safonau llythrennedd<br>11b: Llythrennedd teuluoedd<br>11c: Llythrennedd haf<br>11ch: Awdurdodau llyfrgelloedd<br>**Gweithgarwch 14: Rhifedd**<br>14a: Codi safonau rhifedd<br>14b: Rhifedd haf | **Gweithgarwch 11: Codi safonau llythrennedd**<br>11a: Codi safonau llythrennedd<br>11b: Llythrennedd teuluoedd<br>11c: Llythrennedd haf<br>11ch: Awdurdodau llyfrgelloedd<br>**Gweithgarwch 14: Rhifedd**<br>14a: Codi safonau rhifedd<br>14b: Rhifedd haf |
| **Gweithgarwch 12: Addysg alwedigaethol**<br>12a: Addysg galwedigaethol<br>12b: Cofnod cyrhaeddiad cenedlaethol<br>12c: Addysg gyrfaoedd | **Gweithgarwch 12: Addysg alwedigaethol**<br>12a: Addysg galwedigaethol<br>12b: Cofnod cyrhaeddiad cenedlaethol<br>12c: Addysg gyrfaoedd |
| **Gweithgarwch 15: Cronfa gwella ysgolion 15a: Cronfa gwella ysgolion** | **Gweithgarwch 15: Cronfa gwella ysgolion**<br>15a: Cronfa gwella ysgolion<br>**Gweithgarwch 18: Cronfa cymorth yn yr ystafell ddosbarth**<br>18a: Cronfa cymorth yn yr ystafell ddosbarth |
| **Gweithgarwch 17: Cronfa datblygu cerddoriaeth**<br>17a: Cronfa datblygu cerddoriaeth | **Gweithgarwch 17: Cronfa datblygu cerddoriaeth**<br>17a: Cronfa datblygu cerddoriaeth |

## 2001-02

**Gweithgarwch 7: Cymraeg yn y cwricwlwm cenedlaethol/ cymorth ar gyfer trosglwyddo i addysgu cyfrwng Cymraeg**
7a: Codi safonau ar draws cyfnodau allweddol
7b: Rhaglenni rhyng-awdurdod
7c: Cymorth i drosglwyddo i addysgu cyfrwng Cymraeg

**Gweithgarwch 1: Codi safonau**
1a: Cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig (cynradd)
1b: Cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig (uwchradd)
1c: Asesiadau disgyblion
1ch: Llyfrau a deunyddiau eraill
1d: Addysg sy'n ymwneud â gwaith
1dd: Addysg bersonol a chymdeithasol
1e: Addysg grefyddol
1f: Addysg gorfforol
1ff: Cymwysterau ôl-16

**Gweithgarwch 9: Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn ysgolion**
9a: Grid cenedlaethol ar gyfer dysgu
9b: Defnydd effeithiol o TGCh mewn ysgolion
9c: Prosiectau awdurdodau ar y cyd

**Gweithgarwch 10: Datblygiad proffesiynol**
10a: Rhaglen datblygu penaethiaid genedlaethol
10b: Datblygiad prpffesiynol parhaus athrawon
10c: Hyfforddi llywodraethwyr a chymorth ar gyfer rheoli perfformiad ysgolion

**Gweithgarwch 3: Dysgu blynyddoedd cynnar**
3a: Dysgu blynyddoedd cynnar

**Gweithgarwch 5: Mynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol**
5a: Gweithwyr ieuenctid a chymunedol
5b: Mynediad ieuenctid
5c: Cyflawniad lleiafrifoedd ethnig
5ch: Presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol
5d: Amddiffyn plant
5dd: Plant sy'n derbyn gofal

**Gweithgarwch 6: Anghenion addysgol arbennig**
6a: Gwella sgiliau athrawon sy'n addysgu plant ag anghenion addysgol arbennig, cynorthwywyr cymorth dysgu a hyfforddi arbenigwyr AAA sy'n siarad Cymraeg
6b: Polisïau AAA/cod ymarfer AAA diwygiedig ysgolion
6c: Personau a enwir/cefnogwyr rhieni annibynnol a threfniadau cymodi lleol
6ch: Cynllunio rhanbarthol o ran darpariaeth AAA

**Gweithgarwch 4: Llythrennedd a Rhifedd**
4a: Codi safonau llythrennedd
4b: Llythrennedd a rhifedd teuluoedd
4c: Llythrennedd haf
4ch: Cymorth i awdurdodau llyfrgelloedd
4d: Codi safonau rhifedd
4dd: Rhifedd haf

**Gweithgarwch 2: Cynllunio ar gyfer llwyddiant**
2a: Cronfa gwella ysgolion
2b: Pennu targedau a'u monitro
2c: Sgiliau arwain a rheoli ar gyfer llywodraethwyr ysgolion
2ch: Cronfa cymorth yn yr ystafell ddosbarth

**Gweithgarwch 8: Prosbectws y tu allan i oriau**
8a: Cronfa datblygu cerddoriaeth
8b: Dysgu y tu allan i oriau

## 2002-03

**Gweithgarwch 7: Cymraeg yn y cwricwlwm cenedlaethol/ cymorth ar gyfer trosglwyddo i addysgu cyfrwng Cymraeg**
7a: Codi safonau ar draws cyfnodau allweddol
7b: Rhaglenni rhyng-awdurdod
7c: Cymorth i drosglwyddo i addysgu cyfrwng Cymraeg

**Gweithgarwch 1: Codi safonau**
1a: Cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig (cynradd)
1b: Cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig (uwchradd)
1c: Asesiadau disgyblion
1ch: Llyfrau a deunyddiau eraill
1d: Addysg sy'n ymwneud â gwaith
1dd: Addysg bersonol a chymdeithasol
1e: Addysg grefyddol
1f: Addysg gorfforol
1ff: Cymwysterau ôl-16

**Gweithgarwch 9: Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn ysgolion**
9a: Grid cenedlaethol ar gyfer dysgu
9b: Defnydd effeithiol o TGCh mewn ysgolion
9c: Prosiectau awdurdodau ar y cyd

**Gweithgarwch 10: Datblygiad proffesiynol**
10a: Rhaglen datblygu penaethiaid genedlaethol (NHDP) a modiwlau arweinyddiaeth ysgolion (SLMs)
10b: Datblygiad proffesiynol parhaus athrawon
10c: Hyfforddi llywodraethwyr a chymorth ar gyfer rheoli p erfformiad ysgolion

**Gweithgarwch 3: Dysgu blynyddoedd cynnar**
3a: Dysgu blynyddoedd cynnar

**Gweithgarwch 5: Mynd i'r afael ag amddifadedd cymdeithasol**
5a: Gweithwyr ieuenctid a chymunedol
5b: Mynediad ieuenctid
5c: Cyflawniad lleiafrifoedd ethnig
5ch: Presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol
5d: Amddiffyn plant
5dd: Plant sy'n derbyn gofal

**Gweithgarwch 6: Anghenion addysgol arbennig**
6a: Gwella sgiliau athrawon sy'n addysgu plant ag anghenion addysgol arbennig, cynorthwywyr cymorth dysgu a hyfforddi arbenigwyr AAA sy'n siarad Cymraeg
6b: Polisïau AAA/cod ymarfer AAA diwygiedig ysgolion
6c: Personau a enwir/cefnogwyr rhieni annibynnol a threfniadau cymodi lleol
6ch: Darpariaeth therapi lleferydd ac iaith i blant ag AAA

**Gweithgarwch 4: Llythrennedd a Rhifedd**
4a: Codi safonau llythrennedd
4b: Llythrennedd a rhifedd teuluoedd
4c: Llythrennedd haf
4ch: Cymorth i awdurdodau llyfrgelloedd
4d: Codi safonau rhifedd
4dd: Rhifedd haf

**Gweithgarwch 2: Cynllunio ar gyfer llwyddiant**
2a: Cronfa gwella ysgolion
2b: Pennu targedau a'u monitro
2c: Sgiliau arwain a rheoli ar gyfer llywodraethwyr ysgolion
2ch: Cronfa cymorth yn yr ystafell ddosbarth

**Gweithgarwch 8: Prosbectws y tu allan i oriau**
8a: Cronfa datblygu cerddoriaeth
8b: Dysgu y tu allan i oriau

## 2003-04

**Gweithgarwch 7: Cymraeg yn y cwricwlwm cenedlaethol/ cymorth ar gyfer trosglwyddo i addysgu cyfrwng Cymraeg**
7a: Codi safonau ar draws cyfnodau allweddol
7b: Rhaglen HMS Gymraeg genedlaethol a rhaglen HMS cyfrwng Cymraeg genedlaethol
7c: Cymorth i drosglwyddo i addysgu cyfrwng Cymraeg

**Gweithgarwch 1: Codi safonau**
1a: Cwricwlwm ehangach
1b: Cwricwlwm cenedlaethol
1c: Addysg grefyddol ac addoli ar y cyd
1d: Asesiadau disgyblion
1e: Cymwysterau

**Gweithgarwch 9: TGCh mewn ysgolion**
9a: Grid cenedlaethol ar gyfer dysgu
9b: Defnydd effeithiol o TGCh mewn ysgolion
9c: Prosiectau awdurdodau ar y cyd
9ch: Rhwydwaith band eang ar gyfer dysgu gydol oes

**Gweithgarwch 10: Datblygiad proffesiynol**
10a: Rhaglen datblygu penaethiaid genedlaethol (NHDP) a modiwlau arweinyddiaeth ysgolion (SLMs)
10b: Sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar
10c: Datblygu a rhoi cymorth arall i athrawon

**Gweithgarwch 3: Dysgu blynyddoedd cynnar**
3a: Dysgu blynyddoedd cynnar

**Gweithgarwch 5: Cymorth i ddisgyblion ac ieuenctid**
5a: Gweithwyr ieuenctid a chymunedol
5b: Mynediad ieuenctid
5c: Cyflawniad lleiafrifoedd ethnig
5ch: Presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol
5d: Amddiffyn plant
5dd: Plant sy'n derbyn gofal

**Gweithgarwch 6: Anghenion addysgol arbennig**
6a: Sgiliau ar gyfer gweithio gyda disgyblion AAA
6b: Polisïau AAA/cod ymarfer AAA diwygiedig ysgolion
6c: Cymorth rhieni a chymodi
6ch: Therapi lleferydd ac iaith
6d: Cynllun cynghori ar nam amlsynnwyr (Cynlluniau Gwario Consortia yn unig)

**Gweithgarwch 4: Llythrennedd a Rhifedd**
4a: Codi safonau llythrennedd
4b: Llythrennedd a rhifedd teuluoedd
4c: Llythrennedd haf
4ch: Cymorth i awdurdodau llyfrgelloedd
4d: Codi safonau rhifedd
4dd: Rhifedd haf

**Gweithgarwch 2: Cynllunio ar gyfer llwyddiant**
2a: Cronfa gwella ysgolion
2b: Pennu targedau a'u monitro
2c: Sgiliau arwain a rheoli ar gyfer llywodraethwyr ysgolion
2ch: Cronfa cymorth yn yr ystafell ddosbarth

**Gweithgarwch 8: Prosbectws y tu allan i oriau**
8a: Cronfa datblygu cerddoriaeth
8b: Dysgu y tu allan i oriau

| 2004-05 | 2005-06 |
|---|---|
| **Gweithgarwch 5: Iaith pawb mewn ysgolion**<br>5a: Codi safonau ar draws cyfnodau allweddol<br>5b: Cymorth i drosglwyddo i addysgu cyfrwng Cymraeg | **Gweithgarwch 5: Iaith pawb mewn ysgolion**<br>5a: Codi safonau ar draws cyfnodau allweddol<br>5b: Ymestyn cyfleoedd disgyblion i ymarfer a phrofi'r Gymraeg |
| **Gweithgarwch 7:TGCh mewn ysgolion**<br>7a: Grid cenedlaethol ar gyfer dysgu<br>7b: Defnydd effeithiol o TGCh mewn ysgolion<br>7c: Prosiectau awdurdodau ar y cyd<br>7ch: Rhwydwaith band eang ar gyfer dysgu gydol oes | **Gweithgarwch 6: TGCh mewn ysgolion**<br>6a: Grid cenedlaethol ar gyfer dysgu<br>6b: Defnydd effeithiol o TGCh mewn ysgolion<br>6c: Prosiectau awdurdodau ar y cyd<br>6ch: Rhwydwaith band eang ar gyfer dysgu gydol oes |
| **Gweithgarwch 8: Datblygiad proffesiynol**<br>8a: Rhaglen datblygu penaethiaid genedlaethol a modiwlau arweinyddiaeth ysgolion<br>8b: Sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar | **Gweithgarwch 7: Sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar**<br>7a: Sefydlu a datblygiad proffesiynol cynnar |
| **Gweithgarwch 3: Cymorth i ddisgyblion**<br>3a: Cyflawniad lleiafrifoedd ethnig<br>3b: Presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol<br>3c: Amddiffyn plant<br>3ch: Plant sy'n derbyn gofal<br>3d: Dysgu y tu allan i oriau | **Gweithgarwch 3: Cymorth i ddisgyblion**<br>3a: Grant cyflawniad lleiafrifoedd ethnig<br>3b: Presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol<br>3c: Amddiffyn plant<br>3ch: Plant sy'n derbyn gofal<br>3d: Dysgu y tu allan i oriau |
| **Gweithgarwch 4: Anghenion addysgol arbennig**<br>4a: Sgiliau ar gyfer gweithio gyda disgyblion AAA<br>4b: Polisïau AAA/cod ymarfer AAA diwygiedig ysgolion<br>4c: Gwasanaethau partneriaeth rhieni a gwasanaethau datrys anghydfodau<br>4ch: Therapi lleferydd ac iaith<br>4d: Cynllun cynghori ar nam amlsynnwyr | **Gweithgarwch 4: Anghenion addysgol ychwanegol**<br>4a: Sgiliau ar gyfer gweithio gyda disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol<br>4b: Polisïau cynhwysiant ysgolion (AAA)/cod ymarfer AAA diwygiedig Cymru<br>4c: Gwasanaethau datrys anghydfodau<br>4ch: Gwasanaethau lleferydd ac iaith<br>4d: Cynllun cynghori ar nam ar yr amlsynnwyr |
| **Gweithgarwch 1: Cwricwlwm ysgolion**<br>1a: Llythrennedd a rhifedd<br>1b: Pontio effeithiol<br>1c: Meysydd allweddol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm | **Gweithgarwch 1: Cwricwlwm ysgolion**<br>1a: Llythrennedd a rhifedd<br>1b: Pontio effeithiol<br>1c: Meysydd allweddol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm<br>1ch: Cydweithio ymysg ysgolion bach |
| **Gweithgarwch 2: Hyfforddi Llywodraethwyr**<br>2a: Sgiliau arweinyddiaeth ar gyfer Llywodraethwyr ysgolion | **Gweithgarwch 2: Hyfforddi Llywodraethwyr**<br>2a: Sgiliau arweinyddiaeth a datblygu strategol ar gyfer Llywodraethwyr ysgolion |
| **Gweithgarwch 6: Cronfa datblygu cerddoriaeth**<br>6a: Cronfa datblygu cerddoriaeth | |